Arweiniad ar gyfer arolygu dysgu oedolion yn y gymuned

o Fedi 2010

Diweddarwyd Medi 2012

Estyn

Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Iechyd ar Waith | Health at Work

BUDDSODDWYR MEWN POBL | Aur

Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:

- ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol;
- ysgolion cynradd;
- ysgolion uwchradd;
- ysgolion arbennig;
- unedau cyfeirio disgyblion;
- ysgolion annibynnol;
- addysg bellach;
- dysgu oedolion yn y gymuned;
- hyfforddiant gwaith ieuenctid a chymunedol;
- gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc;
- addysg a hyfforddiant athrawon;
- dysgu yn y gwaith;
- cwmnïau gyrfaoedd;
- dysgu troseddwyr.

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Llywodraeth Cymru ac eraill; ac
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Cynnwys	Tudalen

Cyflwyniad **1**

Diben yr arweiniad hwn 1
Y sail gyfreithiol ar gyfer arolygu partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned 1

Rhan 1: Cynnal arolygiadau **2**

Cyflwyniad 2
Egwyddorion arolygu 2
Cod ymddygiad ar gyfer arolygwyr 2
Disgwyliadau darparwyr 3
Iechyd a diogelwch 3
Ymateb i honiad ynghylch diogelu 3
Dull arolygu 4
Yr Ystafell Arolygu Rithwir 6
Y tîm arolygu 6
Cysylltu â'r bartneriaeth cyn yr arolygiad 6
Cynllunio'r arolygiad a pharatoi'r tîm 8
Yn ystod yr arolygiad 8
Bodloni gofynion statudol 11
Ar ôl yr arolygiad 11
Sicrhau ansawdd arolygiadau 12

Rhan 2: Llunio barnau **13**

Ynglŷn â'r bartneriaeth 13
Crynodeb 14
Disgrifiadau barn 14
Barnu cwestiynau allweddol a dangosyddion ansawdd 15
Argymhellion 15

Cwestiynau allweddol a dangosyddion ansawdd **16**

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? 16
Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? 22
Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? 31

Atodiad 1: Y Fframwaith Arolygu Cyffredin
Atodiad 2: Ffynonellau tystiolaeth
Atodiad 3: Rheoliadau ac arweiniad
Atodiad 4: Holiadur i ddysgwyr
Atodiad 5: Dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY)
Atodiad 6: Arweiniad ar ddefnyddio data wrth arolygu partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned
Atodiad 7: Arweiniad ar weithgarwch dilynol
Atodiad 8: Arolygu SABau heblaw am golegau AB

Cyflwyniad

Diben yr arweiniad hwn

Mae'r arweiniad hwn yn amlinellu'r ffordd y bydd yr arolygiaeth yn arolygu partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned ar gyfer y cylch arolygu chwe blynedd o 2010. Bydd yn cael ei adolygu yn ystod 2012-2013 er mwyn paratoi ar gyfer ail hanner y cylch arolygu.

Dibenion arolygu yw:

- darparu atebolrwydd ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau a rhanddeiliaid eraill trwy ein hadrodd cyhoeddus ar ddarparwyr;
- hyrwyddo gwelliant mewn addysg a hyfforddiant; a
- llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r arolygiaeth yn cynnal arolygiad craidd ar gyfer pob darparwr ym mhob sector addysg a hyfforddiant. Mae'r arweiniad hwn yn esbonio sut byddwn yn cynnal arolygiadau craidd. Pan fo'r arolygiad yn nodi pryder mewn perthynas â safonau ac ansawdd addysg a hyfforddiant neu arweinyddiaeth a rheolaeth, yna bydd yr arolygiaeth yn cynnal gweithgarwch dilynol gyda'r darparwr. Mae'r arweiniad hwn yn cynnwys gwybodaeth am weithgarwch dilynol yn Atodiad 7.

Mae'r arweiniad hwn yn cynnwys dwy ran, sydd ynglŷn â:

- chynnal arolygiad; a
- llunio barnau.

Gall partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned ddefnyddio'r arweiniad hwn i weld sut mae arolygiadau yn gweithio a'u helpu wrth wneud eu hunanasesiad eu hunain. Yn ogystal, gall partneriaethau ddefnyddio arweiniad yr arolygiaeth ar hunanasesu sy'n cyd-fynd â'r Fframwaith Ansawdd ac Effeithiolrwydd (FfAE).

Mae rhagor o wybodaeth ac arweiniad am arolygiadau ar gael ar wefan yr arolygiaeth, sef www.estyn.gov.uk.

Y sail gyfreithiol ar gyfer arolygu partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned

Yn y sector ôl-16, mae Deddf Dysgu a Sgiliau 2000 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Prif Arolygydd adrodd ar:

- ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant a ddarperir;
- y safonau a gyflawnir gan y rhai sy'n derbyn addysg a hyfforddiant; ac
- a yw'r adnoddau ariannol y trefnwyd eu bod ar gael ar gyfer y rhai sy'n darparu addysg a hyfforddiant yn cael eu rheoli'n effeithlon ac yn cael eu defnyddio i ddarparu gwerth am arian.

Mae'r arweiniad hwn yn dehongli'r meysydd hyn yn fanylach.

Rhan 1: Cynnal arolygiadau

Cyflwyniad

Mae'r adran hon wedi'i hamlinellu mewn ffordd sy'n adlewyrchu dilyniant y gwaith cyn, yn ystod ac ar ôl arolygiad craidd.

Mae'r arolygydd cofnodol yn gyfrifol am gynnal a rheoli'r arolygiad, ac ar gyfer yr adroddiad arolygu. Er bod yr arweiniad hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar rôl yr arolygydd cofnodol, rhaid i holl aelodau'r tîm gydymffurfio â'r un gofynion arolygu.

Egwyddorion arolygu

Bydd arolygwyr:

- yn sicrhau bod arolygu o ansawdd uchel ac yn ymateb i anghenion pob dysgwr;
- yn sicrhau bod barnau yn gadarn, yn ddibynadwy, yn ddilys ac wedi'u seilio ar dystiolaeth uniongyrchol;
- yn cynnwys partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned yn llawn yn y broses arolygu, gan gynnwys defnyddio enwebeion;
- yn defnyddio adroddiad hunanasesu'r bartneriaeth fel y man cychwyn ar gyfer arolygu ac yn nodi materion allweddol ar gyfer ymchwilio iddynt er mwyn llunio barnau ar ddilysrwydd ei ganfyddiadau;
- yn cynnwys arolygwyr cymheiriaid yn y broses arolygu;
- yn sicrhau cyn lleied o ofynion ag y bo modd ar gyfer dogfennaeth a pharatoi gan y bartneriaeth;
- yn cael safbwynt y dysgwyr a safbwynt rhanddeiliaid eraill;
- yn cymhwyso egwyddor cydraddoldeb i'r Gymraeg a'r Saesneg yn ein holl waith arolygu, gan ddarparu gwasanaethau dwyieithog lle bynnag y bo'n briodol; a
- bod yn adeiladol wrth nodi a chefnogi ysgolion sydd â meysydd pwysig i'w gwell.

Cod ymddygiad ar gyfer arolygwyr

Dylai arolygwyr gynnal y safonau uchaf posibl yn eu gwaith. Rhaid i bob arolygydd fodloni'r safonau yng nghod ymddygiad Estyn. Wrth gynnal yr arolygiad, dylai arolygwyr:

- yn gwneud eu gwaith gyda didwylledd, cwrteisi a sensitifrwydd priodol;
- yn arfarnu gwaith y darparwr yn wrthrychol;
- yn adrodd yn onest, yn deg ac yn ddiduedd;
- yn cyfathrebu'n glir ac yn agored;
- yn gweithredu er lles y dysgwyr; ac
- yn parchu cyfrinachedd yr holl wybodaeth sy'n dod i law yn ystod eu gwaith.

Mae'n bwysig bod arolygwyr yn barnu effeithiolrwydd darpariaeth ac arweinyddiaeth ar eu cyfraniad at ddeilliannau ac nid ar sail unrhyw hoffter o ddulliau penodol. Yr allwedd i'r farn yw p'un a yw'r dulliau a'r trefniant yn addas i'r diben o gyflawni safonau uchel o ran gwaith i bob dysgwr.

Dylai arolygwyr fod yn ymwybodol o'r ffaith y gellir gwneud ceisiadau am ddatgelu gwybodaeth am fanylion sydd wedi'u cynnwys mewn tystiolaeth arolygu, llythyrau a negeseuon e-bost. Dylid cofnodi'r holl wybodaeth (ysgrifenedig neu electronig) mewn ffordd sy'n addas ar gyfer y cyhoedd.

Disgwyliadau darparwyr

Er mwyn i arolygu a rheoleiddio fod yn adeiladol ac yn fuddiol, mae'n bwysig bod arolygwyr a darparwyr yn sefydlu ac yn cynnal amgylchedd gweithio proffesiynol yn seiliedig ar gwrteisi, parch ac ymddygiad proffesiynol y naill at y llall. Disgwylir i arolygwyr gydymffurfio â Chod Ymddygiad Estyn, ond disgwyliwn hefyd i ddarparwyr:

- fod yn gwrtais ac yn broffesiynol;
- cymhwyso'u codau ymddygiad eu hunain wrth ymdrin ag arolygwyr;
- galluogi arolygwyr i gynnal eu harolygiad mewn modd agored ac onest;
- galluogi arolygwyr i arfarnu'r ddarpariaeth yn wrthrychol yn erbyn y Fframwaith Arolygu Cyffredin;
- defnyddio systemau electronig Estyn ar gyfer rheoli arolygiadau fel bo'r gofyn;
- darparu tystiolaeth a fydd yn galluogi arolygwyr i adrodd yn onest, yn deg ac yn ddibynadwy ynghylch eu darpariaeth;
- cynnal trafodaeth bwrpasol gyda'r arolygydd cofnodol a'r tîm arolygu;
- cydnabod bod angen i arolygwyr arsylwi arfer a siarad â staff, dysgwyr a rhanddeiliaid eraill heb bresenoldeb rheolwr neu uwch arweinydd;
- tynnu unrhyw bryderon ynglŷn â'r arolygiad i sylw arolygwyr mewn modd amserol ac addas drwy'r enwebai neu uwch arweinydd;
- gweithio gydag arolygwyr i sicrhau cyn lleied o aflonyddu a straen ag y bo modd trwy gydol yr arolygiad; a
- sicrhau iechyd a diogelwch arolygwyr tra byddant ar eu safle.

Iechyd a diogelwch

Bydd arolygwyr yn cynnal arolygiadau yn unol ag arweiniad yr arolygiaeth ar iechyd a diogelwch. Os ydynt yn sylwi ar unrhyw beth sydd yn eu barn nhw yn achosi perygl amlwg i ddiogelwch staff, ymwelwyr neu ddysgwyr, dylent rybuddio rheolwyr yn yr ysgol sy'n cael ei harolygu. Dylent roi gwybod iddynt hefyd os sylwir ar fygythiadau llai amlwg. Ym mhob achos dylai arolygwyr wneud nodyn electronig ar wahân o'r bygythiad a bod y rheolwyr wedi cael gwybod amdano. Dylid rhoi copi o hwn i'r swyddog arweiniol ar gyfer iechyd a diogelwch yn yr arolygiaeth. Dylai arolygwyr adrodd ar achosion amlwg o dorri deddfwriaeth iechyd a diogelwch yng Nghwestiwn Allweddol 2.

Ymateb i honiad ynghylch diogelu

Os caiff arolygydd wybod am honiad/amheuaeth ynghylch plentyn, person ifanc neu oedolyn sy'n agored i niwed, bydd yr arolygydd yn dilyn y gweithdrefnau fel y maent wedi'u hamlinellu yn fersiwn gyfredol 'Polisi a gweithdrefnau Estyn ar gyfer diogelu' sydd ar gael ar wefan Estyn.

Dull arolygu

Mae'r arweiniad hwn yn amlinellu'r gweithdrefnau ar gyfer arolygiadau craidd o bartneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned. Bydd yr arolygiadau hyn yn cael eu hategu gan weithgarwch dilynol yn y partneriaethau hynny y canfuwyd, trwy eu harolygiad craidd, eu bod yn tanberfformio.

Y man cychwyn ar gyfer arolygu yw asesiad y bartneriaeth o'i pherfformiad ei hun, wedi'i gefnogi gan wybodaeth berthnasol am berfformiad. Ni fydd arolygwyr yn arolygu pob agwedd ar y gwaith yn fanwl yn ystod arolygiad craidd. Byddant yn cymryd sampl o dystiolaeth i brofi arfarniad y bartneriaeth ei hun o'i gwaith. Bydd yr adroddiad hunanasesu yn arwain sut mae'r tîm yn cymryd sampl o'r dystiolaeth, ond bydd y prif ffocws bob amser ar y safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni.

Y safonau a gyflawnir gan ddysgwyr a'r cynnydd a wnânt yw'r mesur allweddol o ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant y maent wedi'i gael ac o effeithiolrwydd arweinyddiaeth a rheolaeth y bartneriaeth. Bydd arolygiadau yn canolbwyntio ar anghenion dysgwyr ac effaith addysg a hyfforddiant ar godi safonau.

Mewn arolygiadau partneriaeth, gall arolygwyr ddefnyddio tystiolaeth gyfredol o arolygiadau sefydliadol darparwyr unigol pan fydd yn ymdrin â dysgwyr yn y gymuned sy'n oedolion. Bydd yr arolygydd cofnodol yn trafod gyda'r bartneriaeth y dystiolaeth y gellir ei chynnwys mewn arolygiad partneriaeth.

Byddwn yn arolygu pob partneriaeth yn ystod rhaglen chwe blynedd o arolygiadau.

Un wythnos waith yw'r cyfnod arolygu fel arfer, er y gall nifer y diwrnodau a gymerir gan arolygwyr unigol amrywio yn ôl maint y bartneriaeth.

Bydd adroddiadau arolygu yn ymdrin â phob cwestiwn allweddol, dangosydd ansawdd ac agwedd ar y Fframwaith Arolygu Cyffredin.

Cynhelir pob arolygiad yn unol â'n Cynllun Iaith Gymraeg, sydd ar gael ar wefan yr arolygiaeth www.estyn.gov.uk ac mae'n cael ei gefnogi gan arweiniad atodol ar arolygu datblygu'r iaith Gymraeg.

Dylai arolygiadau o bartneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned ganolbwyntio ar ddysgu sy'n digwydd mewn lleoliadau cymunedol, gan gynnwys prif safleoedd colegau ac ysgolion pan fo hyn yn briodol.

Diffiniad o ddysgu oedolion yn y gymuned

Mae Cyflenwi Dysgu Cymunedol i Gymru (Llywodraeth Cymru Tachwedd 2010) yn diffinio dysgu oedolion yn gymuned fel a ganlyn:

Cyfleoedd dysgu hyblyg i oedolion, a ddarperir mewn lleoliadau cymunedol i ddiwallu anghenion lleol.

- Mae ACL yn **hyblyg** am ei fod yn golygu darparu cyrsiau byr a rhan-amser yn bennaf ar adegau gwahanol ac mewn amrywiaeth o leoliadau; ac

- mae ACL wedi'i **anelu'n bennaf at oedolion dros 25 oed**, ond gall oedolion iau sy'n ddysgwyr gymryd rhan hefyd. Mae ACL yn llinyn pwysig yn y rhaglen O Fudd-dal i Waith am ei fod yn gyfle pwysig i'r rhai nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant i gymryd rhan mewn dysgu.

Y dysgwr

Mae dysgwyr sy'n oedolion fel arfer dros 19 oed ac yn cynnwys dysgwyr gydol oes, grwpiau teuluol a dysgwyr hŷn.

Caiff y dysgwyr hyn yn aml eu targedu gan ddarparwyr a phartneriaethau am un neu sawl un o'r rhesymau canlynol:

- efallai nad oes digon o gynrychiolaeth ohonynt yng ngharfan y dysgwyr neu'u bod yn gyfranogwyr anhraddodiadol;
- efallai fod ganddynt lefelau isel o gymwysterau ffurfiol neu'u bod yn dychwelyd i ddysgu;
- gallent fod yn ddysgwyr sy'n gysylltiedig â gwaith sydd wedi'i seilio ar broblemau fel cyn-droseddwyr, y digartref, neu'n oedolion sydd mewn perygl, fel y rheiny sy'n gaeth i gyffuriau; neu
- gallent fod yn unigolion ac yn grwpiau ag anfanteision cymdeithasol, corfforol a/neu feddyliol a/neu anableddau.

Dylai arolygiadau dysgu oedolion yn y gymuned ganolbwyntio ar ba mor dda y mae partneriaethau yn darparu dysgu i'r grwpiau blaenoriaeth a nodwyd yn Cyflenwi Dysgu Cymunedol i Gymru:

- rhai sy'n 16 oed a throsodd ac sydd eisiau mynychu rhaglen ACL sgiliau sylfaenol a/neu ESOL, gan gynnwys cyrsiau sgiliau sylfaenol cyd-destunol a dinasyddiaeth;
- y rhai nad ydynt ar hyn o bryd mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth ac sy'n cael budd-daliadau neu gymorth gan y wladwriaeth (ac eithrio pensiwn ymddeol y wladwriaeth); neu
- y rhai sy'n 50 oed a throsodd nad ydynt mewn cyflogaeth lawnamser.

Fodd bynnag, bydd arolygwyr hefyd yn ystyried pa mor dda y mae partneriaethau yn cynnal ystod eang o gyfleoedd dysgu o fewn dysgu oedolion yn y gymuned, er mwyn denu unigolion nad oeddent yn gallu, neu nad oeddent yn barod, i gymryd rhan mewn cwricwlwm mwy traddodiadol o fewn addysg orfodol.

Hefyd, bydd arolygwyr yn ystyried pa mor dda y mae partneriaethau yn gweithio gyda darparwyr eraill i gefnogi dysgu ar gyfer oedolion sydd y tu hwnt i'r grwpiau blaenoriaeth hyn.

Prif ffocws arolygiadau o bartneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned

Bydd prif ffocws arolygiadau o bartneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned ar ansawdd ac effaith prosesau a systemau'r partneriaethau eu hunain i wella safonau ar gyfer dysgwyr. Bydd arolygiadau hefyd yn ymwneud â'r modd y mae partneriaethau yn ymgysylltu â holl ddarparwyr dysgu oedolion yn y gymuned yn eu

hardal ac yn gwneud yn siŵr bod darparwyr unigol yn cyfrannu at nodau ac amcanion strategol a gweithredol cyffredin cenedlaethol a lleol. Tra bydd yr arolygwyr yn llunio barn ynglŷn â pha mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni, bydd ganddynt yr un diddordeb ym mherfformiad y bartneriaeth wrth helpu dysgwyr i sicrhau'r cyflawniadau hyn.

Yr Ystafell Arolygu Rithwir

Bydd yr arolygiaeth yn defnyddio system electronig ar gyfer rheoli sawl agwedd ar yr arolygiad. Yr enw ar y system hon yw'r 'Ystafell Arolygu Rithwir' (YAR). Dyma system ar y we sy'n caniatáu i'r bartneriaeth lwytho gwybodaeth i fyny ar gyfer yr arolygiaeth a lawrlwytho arweiniad oddi wrth yr arolygiaeth am y broses arolygu. Hefyd, yr YAR yw'r man lle gall y bartneriaeth fynd at arweiniad yr enwebai ar baratoi ar gyfer yr arolygiad ac at yr holiaduron ôl-arolygiad. Mae set gynhwysfawr o ddogfennau a fideos arweiniad ar gael ar wefan Estyn i helpu partneriaethau ddeall a defnyddio'r system.

Y tîm arolygu

Bydd timau arolygu yn cael eu harwain gan arolygydd cofnodol (AEM neu arolygydd ychwanegol), gydag aelodau eraill o'r tîm yn cael eu cymryd o blith AEM neu arolygwyr ychwanegol. Gallai arolygwyr ychwanegol fod ar secondiad neu gontract i'r arolygiaeth. Bydd timau arolygu yn cynnwys staff sy'n gweithio yn y sector (arolygwyr cymheiriaid).

Mae'r arolygydd cofnodol yn rheoli'r tîm arolygu a'r broses arolygu gyfan, ac ef/hi yw'r unigolyn cyswllt cyntaf ar gyfer pawb sy'n cymryd rhan yn yr arolygiad.

Bydd y bartneriaeth dysgu oedolion yn y gymuned yn cael ei gwahodd i ddewis uwch aelod o staff, o'r enw'r enwebai, i weithio gyda'r tîm arolygu. Dylai fod gan yr enwebai ddigon o hynafedd i weithredu fel yr unigolyn cyswllt rhwng y darparwyr yn y bartneriaeth a'r tîm arolygu, ond nid oes angen iddo/iddi fod yn arweinydd unrhyw un o'r darparwyr.

Bydd y bartneriaeth dysgu oedolion yn y gymuned yn cael ei gwahodd i ddewis nifer o bobl cyswllt ansawdd i gynrychioli'r ystod o wahanol ddarparwyr yn y bartneriaeth. Dylai pobl cyswllt ansawdd fod yn uwch aelodau o staff sy'n gallu gweithio gyda'r enwebai i alluogi cyfathrebu da gyda'r tîm arolygu.

Bydd yr enwebai a'r tîm cyswllt ansawdd yn cyfarfod yn rheolaidd â'r tîm arolygu i drafod cynnydd yr arolygiad.

Cysylltu â'r bartneriaeth cyn yr arolygiad

Bydd partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned yn cael pedair wythnos waith o rybudd am yr arolygiad. Ar ôl hyn, bydd yr arolygiaeth yn cysylltu â'r partner arweiniol dros y ffôn i wneud y trefniadau ar gyfer yr arolygiad. Yn ystod y drafodaeth hon, bydd yr arolygiaeth:

- yn esbonio diben yr arolygiad ac yn trafod rhaglen amlinellol ar gyfer yr arolygiad;

- yn trafod y wybodaeth benodol sydd ei hangen cyn yr arolygiad ac yn gwneud y trefniadau ar gyfer ei chael ar ffurf electronig drwy gyfrwng yr Ystafell Arolygu Rithwir;
- yn gofyn a oes unrhyw faterion neu risgiau y dylai'r tîm fod yn ymwybodol ohonynt ac yn gofyn am sesiwn friffio gyffredinol ynghylch iechyd a diogelwch ar gyfer y tîm ar ddechrau'r arolygiad;
- yn pennu a yw'r bartneriaeth yn dymuno cael enwebai, ac os felly, yn cytuno ar rôl yr enwebai;
- yn trafod trefniadau ar gyfer cyfarfod â dysgwyr;
- yn trefnu bod tystiolaeth ategol ar gael, gan gynnwys unrhyw samplau o waith dysgwyr;
- yn sicrhau bod gweithdrefnau cytûn ar gyfer mynd i'r afael ag unrhyw bryderon neu gwynion a allai godi yn ystod yr arolygiad;
- yn trefnu i aelod(au) o'r cyrff llywodraethol/cyrff goruchwylio neu gyfwerth gyfarfod ag arolygwyr yn ystod y cyfnod arolygu;
- yn gwneud unrhyw drefniadau domestig, fel canolfan ar gyfer yr arolygwyr a pharcio;
- yn gwneud trefniadau ar gyfer adrodd yn ôl ynghylch canfyddiadau'r arolygiad;
- yn cytuno ar y trefniadau ar gyfer llenwi'r holiaduron ôl-arolygiad; ac
- yn hysbysu'r bartneriaeth y bydd materion allweddol y trefniadau yn cael eu cadarnhau yn ysgrifenedig.

Bydd yr arolygiaeth yn gofyn am y wybodaeth ganlynol cyn gynted ag y bo modd:

- gwybodaeth gefndir allweddol am y bartneriaeth dysgu oedolion yn y gymuned; a
- manylion am amserlenni'r bartneriaeth ar gyfer cyfnod yr arolygiad.

Os yw'r arolygiad yn cael ei gynnal ar ddechrau'r flwyddyn academaidd, gall yr arolygiaeth ofyn am samplau o waith dysgwyr o'r flwyddyn flaenorol.

Bydd yr arolygiaeth yn cysylltu â'r darparwr i gael y fersiwn ddiweddaraf o'r AHA a'r CDA. Bydd yr arolygiaeth yn gofyn i'r bartneriaeth roi gwybod i bartneriaid a rhanddeiliaid eraill am yr arolygiad. Bydd yr arolygiaeth yn rhoi gwybod i'r bartneriaeth am y gweithdrefnau ar gyfer cael barn dysgwyr.

Bydd y tîm arolygu yn defnyddio'r dystiolaeth o'r ymatebion a roddir gan sampl o ddysgwyr i holiadur sy'n cael ei ddarparu gan Estyn, yr arolwg diweddaraf o ganfyddiadau dysgwyr yn y gymuned sy'n oedolion a gynhaliwyd gan y bartneriaeth a/neu'r arolwg llais y dysgwr diweddaraf a gynhaliwyd trwy'r Adran Addysg a Sgiliau (AdAS) i asesu barn dysgwyr. Bydd canlyniadau'r arolygon hyn yn ffurfio rhan o'r dystiolaeth cyn-arolygiad. Fodd bynnag, pan gaiff darparwyr wybod am arolygiad, gallwn ofyn i sampl o ddysgwyr lenwi holiaduron. Bydd canlyniadau'r arolygon a ddefnyddir yn ffurfio rhan o'r dystiolaeth cyn-arolygiad. Bydd sylwebaeth ar farn y dysgwyr yn ymddangos yn yr atodiad i'r adroddiad arolygu.

Bydd arolygwyr hefyd yn cynnal arolygon llafar yn ystod yr arolygiad gyda grwpiau o ddysgwyr i gael eu safbwynt ar faterion ac i ddilyn trywyddau ymholi canfyddadwy yn ogystal.

Cynllunio'r arolygiad a pharatoi'r tîm

Wrth ystyried adroddiad hunanasesu'r bartneriaeth ac unrhyw wybodaeth sydd gan yr arolygiaeth eisoes, bydd yr arolygydd cofnodol yn cynllunio'r arolygiad ac yn dyrannu cyfrifoldebau i aelodau o'r tîm arolygu.

Bydd yr arolygiaeth yn trefnu cael gwybodaeth am y bartneriaeth gan yr AdAS.

Bydd yr arolygydd cofnodol yn cwblhau sylwebaeth cyn-arolygiad (SCA). Bydd hyn yn cynnwys rhagdybiaethau wedi'u seilio ar yr adroddiad hunanasesu a gwybodaeth arall y bydd arolygwyr yn ei defnyddio i gyfeirio eu trywyddau ymholi yn ystod yr arolygiad. Bydd y SCA ar gael i'r enwebai a'r tîm arolygu ar fore cyntaf yr arolygiad.

Mae arolygiadau yn cynnwys arsylwi addysgu, hyfforddi a gwaith gyda dysgwyr. Disgwylir i bartneriaethau anfon cynllun llawn o'r holl ddarpariaeth a fwriedir yn ystod wythnos yr arolygiad at yr arolygydd cofnodol. Bydd hyn yn cynnwys gweithgareddau oddi ar y safle a lleoliadau dysgwyr cymunedol. Ar sail y wybodaeth a gafwyd, bydd arolygwyr yn dewis sampl fechan o sesiynau i'w harsylwi ac arfarnu. Bydd y sampl yn adlewyrchu ystod gwaith y bartneriaeth ac yn cefnogi'r ymchwiliad i drywyddau ymholi a awgrymwyd gan ragdybiaethau cychwynnol arolygwyr.

Yn ystod yr arolygiad

Y cyfarfod tîm cychwynnol

Yng nghyfarfod cychwynnol y tîm arolygu, dylid cael sesiwn friffio iechyd a diogelwch oddi wrth y bartneriaeth. Ar ôl hynny, bydd y tîm yn trafod y strategaeth ar gyfer yr arolygiad. Dylai hyn ddechrau gydag adroddiad hunanasesu'r ysgol a'r SCA.

Bydd arolygwyr yn cymryd sampl o'r arfarniadau a wnaed gan y bartneriaeth, ac yn eu profi a'u dilysu. Dylai'r trafodaethau ganolbwyntio ar y dystiolaeth y mae angen ei hadolygu. Bydd hyn yn cynnwys arsylwadau, samplau o waith dysgwyr a chyfweliadau gyda dysgwyr, staff a rhanddeiliaid eraill.

Casglu ac adolygu tystiolaeth arolygu

Bydd arolygwyr yn arfarnu'r ddarpariaeth ac yn llunio dwy farn allweddol gyffredinol. Bydd y barnau cyffredinol hyn yn deillio o'r barnau a luniwyd ar y tri chwestiwn allweddol. Mae pob cwestiwn allweddol wedi'i rannu'n ddangosyddion ansawdd sydd â nifer o agweddau.

Bydd y tîm yn cynllunio'r arolygiad er mwyn iddynt allu ymdrin â'r agweddau a dilyn y trywyddau ymholi a nodwyd sy'n benodol i'r bartneriaeth.

Bydd y tîm yn sicrhau bod ganddynt ddigon o amser i adolygu'r dystiolaeth allweddol sydd ei hangen i lunio barnau. Bydd angen i'r tîm sicrhau ei fod yn canolbwyntio ar y dystiolaeth allweddol y gellir ei defnyddio i gadarnhau ei farnau. Dyma'r prif fathau o dystiolaeth:

- gwybodaeth gan yr AdAS;
- tystiolaeth ddogfennol, gan gynnwys data ar ddeilliannau, perfformiad a chynnydd dysgwyr;

- arsylwi sesiynau addysgu neu hyfforddi a gweithgareddau eraill;
- samplau o waith dysgwyr;
- barn disgyblion a rhanddeiliaid eraill; a
- thrafodaethau gyda staff, arweinwyr a rheolwyr, llywodraethwyr neu gyrff goruchwylio ac eraill.

Mae manylion y prif ffynonellau tystiolaeth wedi'u cynnwys yn Atodiad 2.

Bydd y tîm yn defnyddio arsylwadau uniongyrchol o waith lle bynnag y bo modd i gasglu tystiolaeth i gefnogi barnau. Gall y tîm yn treulio rhwng 30% a 50% o'u hamser ar yr arolygiad yn arsylwi'r dysgu, yr addysgu a'r hyfforddi. Bydd arolygwyr fel arfer yn treulio dim llai na 30 munud yn arsylwi gweithgaredd dysgu.

Gall arolygwyr ddewis sampl ychwanegol o waith dysgwyr i ddiwallu anghenion trywyddau ymholi penodol.

Mae gwrando ar ddysgwyr yn ffynhonnell allweddol o dystiolaeth o'u cyflawniad, eu hagweddau a'u lles. Bydd trafodaethau yn gyfle i archwilio gwybodaeth a dealltwriaeth dysgwyr o'u gwaith, a pha mor dda y maent yn teimlo bod y bartneriaeth yn eu cefnogi ac yn cyfrannu at eu lles.

Dylai'r dysgwyr fydd yn cael eu cyfweld gael eu dewis yn ofalus er mwyn darparu tystiolaeth ar gyfer trywyddau ymholi penodol. Gall y tîm arolygu ofyn am restrau ar sail categorïau amrywiol, er enghraifft, y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol, siaradwyr Cymraeg, dysgwyr mwy abl a dawnus, dysgwyr o gefndiroedd dan anfantais a grwpiau ethnig lleiafrifol, ar draws pob agwedd ar y ddarpariaeth. Dylai'r bartneriaeth hefyd roi gwybod i'r tîm arolygu am fforymau dysgwyr, grwpiau neu ganghennau presennol.

Dylai partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned drefnu bod gwybodaeth ar gael i'r tîm arolygu am y safonau a gyflawnir gan ddysgwyr, yn enwedig canlyniadau unrhyw brofion sgrinio cychwynnol ac asesiadau eraill. Bydd hyn yn helpu arolygwyr i farnu cynnydd disgyblion a llunio safbwynt am y safonau y mae dysgwyr yn eu cyflawni o'i gymharu â mannau cychwyn.

Bydd angen i'r tîm ystyried barn rhanddeiliaid ar y bartneriaeth a phrofi dilysrwydd y safbwyntiau hynny yn ystod yr arolygiad er mwyn llywio barnau.

Mae'n bwysig bod yr arolygydd cofnodol yn cynnal cyfarfod dyddiol byr gyda'r enwebai a'r tîm cyswllt ansawdd i gytuno ar drefniadau newydd, trafod materion sy'n codi a materion sy'n peri pryder, egluro materion arolygu a chael rhagor o wybodaeth.

Cofnodi tystiolaeth arolygu

Bydd arolygwyr yn defnyddio ffurflenni barnau (FfBau) a ffurflenni arfarnu (FfAau) eraill i gofnodi eu canfyddiadau a'u barnau. Gall y rhain ymwneud ag arsylwi gweithgareddau dysgu, trafodaethau gyda dysgwyr, cyfweliadau gyda staff, cyfweliadau gydag arweinwyr a rheolwyr, craffu ar ddogfennaeth, gwybodaeth am berfformiad a samplau o waith dysgwyr.

Lle bynnag y bo'n bosibl ac yn ymarferol, bydd arolygwyr yn llenwi eu FfBau yn electronig fel rhan o system electronig Estyn ar gyfer casglu, coladu a chofnodi canfyddiadau arolygu.

Cyfarfodydd tîm

Prif ddiben cyfarfodydd tîm yw llunio safbwynt cyffredinol, cywir, sydd wedi'i brofi'n drylwyr am safonau, ansawdd ac arweinyddiaeth. Bydd y tîm arolygu cyfan yn cytuno ar farnau corfforaethol sydd wedi'u seilio ar ddigon o dystiolaeth ddilys a dibynadwy. Bydd cyfarfodydd yn cynnwys agendâu clir a bydd cyfleoedd i arolygwyr:

- brofi'r barnau yn adroddiad hunanasesu'r bartneriaeth;
- trafod materion sy'n codi a thrywyddau ymholi;
- datrys materion a rhagdybiaethau cyn-arolygiad;
- trafod unrhyw fylchau yn sail y dystiolaeth; ac
- ystyried prif ganfyddiadau ac argymhellion yr arolygiad.

Deialog broffesiynol

Ar ddiwedd arsylwad, dylai arolygwyr, cyhyd ag y bo'n ymarferol, roi adborth ar y gwaith a welwyd. Mewn rhai achosion, efallai y bydd angen rhoi adborth llawnach yn ddiweddarach ac, os felly, dylid trefnu hyn ar ddiwedd y sesiwn. Dylid dweud wrth yr aelod staff dan sylw mai barnau dros dro yw'r rhain ar un agwedd ar y dystiolaeth ac y gellir diwygio'r rhain, ar ôl myfyrio arnynt, ar ôl archwilio gwaith dysgwyr neu siarad â dysgwyr, neu o ganlyniad i safoni o fewn y tîm. O'r herwydd, ni ddylai arolygwyr drafod unrhyw arfarniadau dros dro, ond dylent geisio canolbwyntio ar unrhyw gryfderau neu feysydd i'w datblygu o ran y gwaith a welwyd.

Adborth ffurfiol

Ar ddiwedd y rhan ar y safle o'r arolygiad, bydd y tîm yn rhoi adborth llafar i arweinwyr a rheolwyr. Dylid gwahodd cynrychiolwyr o blith uwch reolwyr y bartneriaeth i'r cyfarfod. Gall cynrychiolydd o AdAS fynychu hefyd. Pryd bynnag y bo modd, gall cynrychiolydd ar ran y dysgwyr gael ei wahodd hefyd yn ôl disgresiwn y bartneriaeth. Dylai'r adborth gyfleu'r prif farnau a'r rhesymau drostynt ar gyfer y ddwy farn gryno gyffredinol ac ar gyfer y cwestiynau allweddol a'r dangosyddion ansawdd.

Mae'r cyfarfod adborth yn rhoi cyfle i arweinwyr a rheolwyr glywed y barnau a myfyrio arnynt. Dylai'r adborth ganolbwyntio ar y cryfderau a'r meysydd i'w gwella a'r ffactorau sy'n cyfrannu atynt. Dylai'r arolygydd cofnodol esbonio i'r bartneriaeth y gellir codi materion a'u trafod, y gellir cywiro materion ffeithiol a gellir egluro barnau, ond na ellir negodi barnau. Dylai fod cysondeb bras rhwng yr arfarniadau sy'n cael eu hadrodd yn ôl a'r hyn sy'n ymddangos yn yr adroddiad ysgrifenedig, oni bai bod angen newid yr arfarniadau o ganlyniad i safoni mewnol o fewn yr arolygiaeth ar ôl y rhan ar y safle o'r arolygiad.

Mae'r holl farnau yr adroddir amdanynt yn ystod arolygiad yn rhai dros dro ac yn amodol ar gael eu safoni gan PAEM. Maent yn gyfrinachol i'r bartneriaeth hyd nes cyhoeddi'r adroddiad. Bydd y barnau dros dro yn cael eu rhannu gyda'r AdAS.

Gweithgarwch dilynol

Yn ystod pob arolygiad craidd, bydd y tîm arolygu yn ystyried a oes angen gweithgarwch dilynol ar y bartneriaeth a bydd yn rhoi adborth clir i arweinwyr a rheolwyr yn ystod y cyfarfod adborth ffurfiol os oes angen unrhyw weithgarwch dilynol.

Mae Atodiad 7 yn amlinellu arweiniad yr arolygiaeth ar weithgarwch dilynol.

Bodloni gofynion statudol

Caiff gwaith partneriaethau ei reoli gan ystod o ofynion statudol. Mae'r arolygiaeth yn disgwyl i bartneriaethau arfarnu pa mor effeithiol y maent yn bodloni'r gofynion hyn trwy eu gweithdrefnau hunanasesu arferol eu hunain. Dylent nodi pa mor dda y maent yn bodloni'r gofynion hyn yn eu hadroddiad hunanasesu. Gall arolygwyr ddefnyddio'r adroddiad hunanasesu a gwybodaeth arall i nodi unrhyw faterion mewn perthynas â pha mor effeithiol y mae partneriaeth yn bodloni ei gofynion statudol. Bydd arolygwyr yn ymchwilio i'r materion hyn ymhellach yn ystod yr arolygiad pan fyddant yn debygol o gael effaith sylweddol ar safonau ac ansawdd.

Os methir bodloni gofynion statudol sy'n effeithio ar ansawdd a safonau, adroddir am hyn yn y testun a gall arwain at farn nad yw'n uwch na digonol ar gyfer y dangosydd ansawdd perthnasol.

Mae manylion am y gofynion statudol perthnasol wedi'u cynnwys yn Atodiad 3.

Ar ôl yr arolygiad

Yr adroddiad arolygu

Mae'r arolygydd cofnodol yn gyfrifol am lunio adroddiad arolygu terfynol sy'n glir i gynulleidfa leyg ac yn ddefnyddiol i'r bartneriaeth dysgu oedolion yn y gymuned. Yn y rhan fwyaf o achosion, ni ddylai prif gorff yr adroddiad fod yn hwy na phum tudalen. Pan fyddant yn ysgrifennu adroddiadau, dylai arolygwyr ystyried arweiniad ysgrifennu Estyn sydd ar gael ar ein gwefan www.estyn.gov.uk.

Byddwn yn cyhoeddi adroddiadau yn ddwyieithog lle gofynnir am hyn, yn unol â Chynllun Iaith Gymraeg Estyn.

Mae strwythur yr adroddiad arolygu wedi'i seilio ar ddwy farn gryno gyffredinol, tri chwestiwn allweddol a deg dangosydd ansawdd a bydd ar y ffurf ganlynol:

Ynglŷn â'r bartneriaeth

Crynodeb

- barn gyffredinol ar berfformiad cyfredol
- barn gyffredinol ar ragolygon gwella

Argymhellion

Prif ganfyddiadau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

- safonau
- lles

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

- profiadau dysgu
- addysgu a hyfforddi
- gofal, cymorth ac arweiniad
- amgylchedd dysgu

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?

- arweinyddiaeth
- gwella ansawdd
- gweithio mewn partneriaeth
- rheoli adnoddau

Atodiadau

Atodiad 1: Sylwebaeth ar arolwg yr holiadur i ddysgwyr
Atodiad 2: Y tîm arolygu

Bydd y ddwy farn gryno gyffredinol, y barnau ar y tri chwestiwn allweddol a'r 10 dangosydd ansawdd wedi'u seilio ar raddfa bedwar pwynt:

Rhagorol
Da
Digonol
Anfoddhaol

Bydd yr adroddiad yn cael ei lunio o fewn graddfeydd amser statudol neu raddfeydd amser y cytunwyd arnynt ar gyfer y sector. Bydd yn dweud a oes angen unrhyw weithgarwch arolygu dilynol ar y bartneriaeth. Bydd yr arolygiaeth yn rhoi adroddiad drafft hwyr i uwch reolwyr y bartneriaeth dysgu oedolion yn y gymuned i helpu gwirio cywirdeb ffeithiol y cynnwys. Mae gan y bartneriaeth bum niwrnod gwaith i ystyried yr adroddiad drafft a chodi pryderon am gywirdeb ffeithiol.

Sicrhau ansawdd arolygiadau

Mae'r arolygiaeth wedi ymrwymo i:

- ddewis, hyfforddi, briffio, cynorthwyo a defnyddio arolygwyr yn effeithiol, gan gynnwys arolygwyr cymheiriaid;
- hyfforddiant, briffio a chymorth effeithiol er mwyn galluogi'r enwebai i chwarae rôl weithredol;
- trafodaethau rheolaidd gyda'r uwch reolwyr eraill a phobl cyswllt ansawdd eraill yn ystod yr arolygiad;

- meini prawf a systemau cofnodi sy'n cydymffurfio â'r Fframwaith Arolygu Cyffredin a'r arweiniad;
- adolygu a dadansoddi tystiolaeth yn ofalus;
- adborth llafar diamwys ar y barnau cryno, y cwestiynau allweddol a'r dangosyddion ansawdd;
- adroddiadau sy'n gyson glir, cywir ac wedi'u cyflwyno'n dda; a
- chynnal gweithgareddau safoni a gwella ansawdd mewnol priodol, gan gynnwys monitro arolygiadau fel y bo'n briodol.

Fel rhan o'i gweithdrefnau sicrhau ansawdd, mae'r arolygiaeth yn gwahodd partneriaethau i lenwi holiadur ôl-arolygiad. Bydd yr holiadur ar gael i enwebeion y partneriaethau yn yr YAR. Dylai partneriaethau lenwi rhan gyntaf yr holiadur ar unwaith yn dilyn yr arolygiad ar y safle a'i gyflwyno'n electronig i Estyn drwy system yr YAR. Gall partneriaethau lenwi ail ran yr holiadur yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad arolygu, eto drwy system yr YAR.

Dylai partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned godi unrhyw bryderon am y dull o gynnal arolygiad gyda'r arolygydd cofnodol yn ystod yr arolygiad. Dylid trafod unrhyw wrthwynebiad i ganfyddiadau'r arolygiad gyda'r arolygydd cofnodol hefyd wrth iddynt godi yn ystod yr arolygiad. Yr arolygydd cofnodol fydd yn sicrhau ansawdd yr arolygiad yn gyntaf bob amser. Bydd yr arolygiaeth yn sicrhau ansawdd sampl o arolygiadau ac adroddiadau.

Mae trefniadau Estyn ar gyfer delio â chwynion wedi'u cyflwyno yn 'Gweithdrefn ar gyfer Delio â Chwynion', sydd ar gael ar wefan yr arolygiaeth, www.estyn.gov.uk.

Rhan 2: Ysgrifennu'r adroddiad

Mae'r arweiniad sy'n dilyn yn dangos sut i gwblhau'r adran ar y bartneriaeth, y crynodeb ac argymhellion yr adroddiad, ac mae'n amlinellu'r gofynion adrodd ar gyfer pob cwestiwn allweddol.

Ynglŷn â'r bartneriaeth

Dylai adran cyd-destun yr adroddiad gynnwys gwybodaeth gryno am y bartneriaeth dysgu oedolion yn y gymuned. Fel arfer dylid cytuno ar gynnwys yr adran hon gyda'r bartneriaeth. Pan fydd anghytuno ynglŷn â chynnwys yr adran hon, bydd yr arolygydd cofnodol yn gwneud y penderfyniad terfynol ynglŷn â beth i'w gynnwys yn yr adroddiad.

Rhaid i'r adran hon gynnwys gwybodaeth am:

- nifer a natur y dysgwyr;
- lleoliadau'r bartneriaeth;
- nodweddion yr ardal sy'n cael ei gwasanaethu gan y bartneriaeth;
- unrhyw newidiadau arwyddocaol ers yr arolygiad blaenorol; ac
- unrhyw ffactorau perthnasol eraill.

Crynodeb

Mae'r crynodeb yn cynnwys y ddwy farn gyffredinol ar berfformiad cyfredol y bartneriaeth dysgu oedolion yn y gymuned a'i rhagolygon gwella. Dylai fod esboniad byr o'r rhesymau am y barnau hyn. Rhaid i'r crynodeb fod yn gyson â'r testun yng nghorff yr adroddiad a'r adborth llafar i'r bartneriaeth. Mae angen i'r datganiadau ategol ar gyfer y ddwy brif farn esbonio'n gryno, mewn ychydig o frawddegau, pam y lluniwyd y barnau.

Barn gyffredinol ar berfformiad cyfredol y bartneriaeth

Dylid seilio'r farn gyffredinol gyntaf ar y barnau a luniwyd ar y tri chwestiwn allweddol. Dylid rhoi'r pwys mwyaf i'r farn am Gwestiwn Allweddol 1.

Fel arfer, ni fydd y farn gyffredinol yn uwch na'r farn isaf a ddyfarnwyd i unrhyw gwestiwn allweddol. Gall y farn gyffredinol fod un lefel yn uwch na lefel isaf y farn a ddyfarnwyd i unrhyw gwestiwn allweddol, ond rhaid esbonio'r rhesymau dros yr eithriad hwn yn glir ac yn llawn yn yr adroddiad. Yn ystod y broses o safoni barnau'r arolygiad, bydd eithriadau o'r fath yn cael eu hystyried yn ofalus.

Barn gyffredinol ar ragolygon gwella'r ysgol

Mae'r ail farn gyffredinol yn cynrychioli hyder arolygwyr yng ngallu'r bartneriaeth i fynd ati i wella ei hun yn y dyfodol.

Wrth lunio barn am y rhagolygon gwella, bydd arolygwyr yn ystyried i ba raddau y mae gan arweinwyr a rheolwyr:

- y cynhwysedd a'r gallu i wneud gwelliannau a rhoi cynlluniau ar waith;
- hanes llwyddiannus o reoli newid, mynd i'r afael ag argymhellion o arolygiadau blaenorol a sicrhau gwelliant;
- blaenoriaethau clir a thargedau heriol ar gyfer gwella;
- cynlluniau cydlynus ac ymarferol i fodloni targedau;
- adnoddau i fodloni'r blaenoriaethau a nodwyd; a
- systemau priodol i adolygu cynnydd, nodi meysydd ar gyfer eu gwella a chymryd camau effeithiol i'w cywiro.

Disgrifiadau barn

Mae'r disgrifiadau canlynol wedi'u bwriadu i fod yn arweiniad i helpu arolygwyr i lunio barnau trwy ystyried cydbwysedd ac arwyddocâd cymharol y cryfderau a'r meysydd i'w gwella.

Bydd angen i arolygwyr wirio pa un o'r disgrifwyr barn sydd fwyaf addas ar gyfer unrhyw ddangosydd ansawdd a chwestiwn allweddol y mae'n rhaid llunio barn ar y raddfa pedwar pwynt ar ei gyfer.

Rhagorol – Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector

Da – Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol

Digonol – Cryfderau yn gorbwyso meysydd i'w gwella

Anfoddhaol – Meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso cryfderau

Bydd angen i arolygwyr wirio pa un o'r disgrifiadau uchod sydd fwyaf addas ar gyfer pob un o'r barnau cryno, y cwestiynau allweddol a'r dangosyddion ansawdd.

Barnu cwestiynau allweddol a dangosyddion ansawdd

Ni all y farn ar gyfer Cwestiwn Allweddol 1 fel arfer fod yn uwch na digonol pan fydd data cwblhau a chyrhaeddiad yn dangos tueddiadau dros dair blynedd ar lefelau yn is na chyfartaleddau cenedlaethol ar gyfer ystod o ddangosyddion perfformiad allweddol, gan ystyried cyd-destun y bartneriaeth.

Mae cyswllt cryf rhwng canlyniadau, darpariaeth ac arweinyddiaeth a rheolaeth. Os yw arweinwyr a rheolwyr yn gweithio'n effeithiol, yna dylid adlewyrchu hyn yn y ddarpariaeth ac yn y safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni. Felly, ni fydd y barnau ar gyfer Cwestiynau Allweddol 2 a 3 fel arfer ar lefel uwch na'r farn ar gyfer Cwestiwn Allweddol 1, ond gallant fod yn is. Pan fydd gwahaniaethau rhwng y barnau ar gyfer Cwestiwn Allweddol 1, a Chwestiynau Allweddol 2 a 3, dylid esbonio'r rhain yn nhestun yr adroddiad.

Fel arfer, dylai'r farn gyffredinol ar y cwestiwn allweddol adlewyrchu'r barnau ar gyfer y dangosyddion ansawdd yn y cwestiwn allweddol ac ni ddylai fod yn fwy nag un lefel yn uwch na'r lefel isaf a ddyfarnwyd i unrhyw ddangosydd ansawdd.

Os nad oes gan y bartneriaeth bolisi neu weithdrefnau diogelu priodol ar waith, dylai'r farn ar gyfer 2.3 (gofal, cymorth ac arweiniad) fod yn anfoddhaol.

Ni ddylai'r farn ar reoli adnoddau fel dangosydd ansawdd fod yn uwch ar y raddfa na'r farn ar gyfer Cwestiwn Allweddol 1 fel arfer, ond gall fod yn is.

Argymhellion

Dylai'r argymhellion roi syniad clir a phenodol i'r partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned o'r meysydd i'w gwella y bydd angen iddynt fynd i'r afael â nhw yn eu cynllun gweithredu. Dylai arolygwyr ysgrifennu'r argymhellion yn nhrefn eu blaenoriaeth a, lle bo angen codi safonau cyflawniad neu gyrhaeddiad, dyma fydd y brif flaenoriaeth. Dylai'r argymhellion ddeillio o'r prif farnau a dylent ddarparu sylfaen glir ac ymarferol y gall y bartneriaeth weithredu arni. Rhaid i arolygwyr gyfeirio at unrhyw faterion arwyddocaol a nodwyd yn yr adroddiad lle nad yw arfer y bartneriaeth yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol.

Cwestiynau allweddol a dangosyddion ansawdd

Mae'r deg dangosydd ansawdd a ddefnyddir mewn arolygiadau wedi'u hamlinellu isod o dan y tri chwestiwn allweddol. Ar gyfer pob dangosydd ansawdd, mae ystod o agweddau. Mae arweiniad ar sut i arolygu'r dangosydd ansawdd wedi'i amlinellu o dan bob cwestiwn allweddol.

Dylai arolygwyr roi arfarniad cyffredinol o'r holl gwestiynau allweddol a dangosyddion ansawdd a rhoi sylwadau ar bob agwedd.

Mae paragraffau enghreifftiol ar gyfer barnau da ac anfoddhaol yn esbonio pob dangosydd ansawdd. Ni ddylid defnyddio'r paragraffau hyn fel rhestrau gwirio crai, ond fel cyfeiriad i gefnogi'r broses o lunio barn. Dylid eu defnyddio ar y cyd â'r disgrifiadau barn. Dylai arolygwyr bwyso a mesur y dystiolaeth a phennu barnau ar sail y rhai sy'n cyd-fynd orau â'r disgrifiadau barn.

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Wrth lunio barn gyffredinol ar gyfer y cwestiwn allweddol hwn, dylai arolygwyr roi'r pwys mwyaf i farnau am safonau.

1.1 Safonau

- **1.1.1 canlyniadau a thueddiadau mewn perfformiad o'u cymharu â chyfartaleddau cenedlaethol, darparwyr tebyg a chyrhaeddiad blaenorol**
- **1.1.2 safonau grwpiau gwahanol o ddysgwyr**
- **1.1.3 cyflawniad a chynnydd wrth ddysgu**
- **1.1.4 medrau**
- **1.1.5 yr iaith Gymraeg**

Materion wrth arolygu'r dangosydd ansawdd

Dylai arolygwyr bob amser ystyried yn ofalus a yw'r farn gyffredinol yn gyson â'r data sydd ar gael. Pan na fydd gwybodaeth am ddata yn cael ei hadlewyrchu ym marnau'r arolygwyr yn y dangosydd ansawdd hwn, dylai'r adroddiad esbonio'n glir pam.

Yn 1.1.1 ac 1.1.2, dylai'r adroddiad ganolbwyntio'n glir ar y prif farnau am safonau sy'n deillio o'r dadansoddiad o ddata. Dylai hyn ymwneud yn bennaf â pha mor dda y mae'r bartneriaeth yn ei wneud at ei gilydd a'r duedd gyffredinol yn ei pherfformiad, yn enwedig mewn perthynas ag unrhyw feincnodau cenedlaethol neu leol, ac mewn perthynas â grwpiau penodol o ddysgwyr. Ni ddylai arolygwyr ddyrannu mwy na thraean o'r adran ar safonau (1.1.1 ac 1.1.2) i sylwadau ar berfformiad y bartneriaeth mewn perthynas â data. Ni ddylai'r adroddiad gynnwys llawer o ddadansoddi data yn y fan hon. Gallai sylwebaeth lawnach ar ddata perfformiad y bartneriaeth fod yn rhan o atodiad ar ddata ar ddiwedd yr adroddiad.

1.1.1: canlyniadau a thueddiadau mewn perfformiad o'u cymharu â chyfartaleddau cenedlaethol, darparwyr tebyg a chyrhaeddiad blaenorol

Wrth lunio barn ar y dangosydd ansawdd hwn, dylai arolygwyr ystyried ystod o ddata ar berfformiad dysgwyr.

Wrth edrych ar wybodaeth am berfformiad dysgwyr, mae arolygwyr yn dadansoddi data heb ei wirio sy'n cael ei ddarparu gan Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru, gan gynnwys data meincnodi, lle bo'n briodol. Maent yn dadansoddi'r data mewn amrywiaeth o ffyrdd er mwyn gweld pa mor dda y mae dysgwyr yn cwblhau ac yn ennill eu cymwysterau a'u dyfarniadau. Bydd arolygwyr yn edrych ar ddeilliannau data dros gyfnod o dair blynedd er mwyn nodi tueddiadau mewn perfformiad. Byddant hefyd yn ystyried gwybodaeth ynglŷn â pha mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni o gymharu â'u mannau cychwyn a chyfran y dysgwyr sy'n cyflawni graddau uchel lle bo'n briodol. Bydd arolygwyr yn ystyried pa mor dda y mae dysgwyr yn symud ymlaen o un lefel i'r nesaf ac ar draws lefelau. Byddant yn edrych yn benodol ar gyfraddau cwblhau, cyrhaeddiad a llwyddo. Mae cyfraddau cwblhau yn dangos cyfran y dysgwyr sy'n cwblhau'r cwrs ar ôl ymrestru. Mae cyfraddau cyrhaeddiad yn dangos cyfran y dysgwyr sy'n ennill y cymhwyster ar ôl cwblhau'r cwrs. Mae cyfraddau llwyddiant yn dangos cyfran y dysgwyr sy'n ennill y cymhwyster ar ôl ymrestru ar y cwrs. Ar gyfer dysgwyr yn y gymuned sy'n oedolion ar raglenni lefel mynediad a lefel 1, efallai na fydd cyrhaeddiad o ran cymwysterau bob amser yn adlewyrchu safonau cyflawniad yn llawn. Mae llawer o ddysgwyr ar y rhaglenni hyn yn cyflawni'n dda heb ennill cymhwyster ffurfiol. Pan fydd y canlyniadau naill ai'n llawer is neu'n llawer uwch na chyfartaleddau cenedlaethol, dylai arolygwyr ddadansoddi'r ffactorau sy'n cyfrannu at yr amrywiad, gan ystyried y cefndiroedd a'r heriau sy'n wynebu grwpiau gwahanol o ddysgwyr.

Wrth edrych ar ddata ar berfformiad dysgwyr, dylai arolygwyr ystyried a dadansoddi data'r bartneriaeth gyfan, data ar ddeilliannau ar gyfer prif gymwysterau ym mhob maes cwricwlwm a thueddiadau mewn cwblhau ar gyfer cyrsiau heb eu hachredu, ynghyd â deilliannau mewn medrau allweddol neu hanfodol.

Mae Atodiad 6 yn darparu arweiniad ar ddefnyddio data wrth arolygu partneriaethau a darparwyr ôl-16 eraill.

Dylai arolygwyr ystyried y cyfraddau y mae dysgwyr yn symud ymlaen:

- i gyflogaeth ac mewn cyflogaeth, neu wirfoddoli;
- i addysg uwch; ac
- i lefelau uwch o addysg bellach.

1.1.2: safonau grwpiau o ddysgwyr

Bydd arolygwyr yn edrych ar berfformiad dysgwyr ar wahanol lefelau a mathau o gwrs. Byddant yn ystyried ffactorau a allai arwain at amrywiad o gyfartaleddau cenedlaethol, gan gynnwys y cefndiroedd a'r heriau sy'n wynebu grwpiau gwahanol o ddysgwyr. Gallai arolygwyr edrych ar berfformiad cymharol grwpiau gwahanol o ddysgwyr, gan gynnwys:

- dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig;
- dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY);

- dysgwyr o grwpiau ethnig gwahanol; a
- dysgwyr sy'n ddynion ac yn ferched.

1.1.3: cyflawniad a chynnydd mewn dysgu

Dylai arfarniad arolygwyr o gyflawniad dysgwyr fod yn seiliedig ar dystiolaeth o arsylwadau gwersi, trafodaethau gyda dysgwyr a chraffu ar waith ysgrifenedig ac ymarferol. Dylai arolygwyr arfarnu pa mor dda y mae dysgwyr yn galw i gof ddysgu blaenorol, yn datblygu medrau meddwl, yn caffael gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau newydd ac yn cymhwyso'r rhain i sefyllfaoedd newydd. Pryd bynnag y bo modd, dylai arolygwyr arfarnu safonau eu gwaith llafar, ysgrifenedig ac ymarferol, ac i ba raddau y mae'n bodloni safonau'r cyrff dilysu a dyfarnu perthnasol lle bo'n briodol. Efallai bod dysgwyr mewn partneriaeth dysgu oedolion yn y gymuned wedi cyflawni dyfarniadau credyd amrywiol a fydd yn rhoi arwyddion o'r cynnydd a wnaed ar draws nifer o feysydd pwnc. Ar gyfer cyrsiau heb eu hachredu, dylech ddefnyddio cynlluniau dysgu unigol y dysgwr i farnu pa mor dda y caiff cynnydd a chyflawniadau dysgwyr eu cofnodi. Dylai arolygwyr asesu pa mor dda y mae dysgwyr yn defnyddio mentrau fel RARPA neu gynlluniau tebyg i gofnodi eu cynnydd a'u cyflawniadau eu hunain.

1.1.4: medrau

Dylai ffocws gwaith arolygwyr wrth edrych ar fedrau fod ar y safonau a'r cynnydd a gyflawnir gan ddysgwyr mewn llythrennedd (cyfathrebu), rhifedd (cymhwyso rhif) a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh). Dylai arolygwyr roi'r pwys mwyaf i fedrau cyfathrebu, yn enwedig llythrennedd ac ysgrifennu, gan fod y rhain yn tanategu iaith rhifedd a TGCh ac yn hwyluso defnydd o'r cwricwlwm ehangach. Dylent arfarnu pa mor dda y mae dysgwyr yn datblygu ac yn gwella eu medrau yn unigol o'u mannau cychwyn unigol.

Dylid bod yn ofalus wrth lunio barnau am gyrhaeddiad o ran cymwysterau a chredyd sydd islaw lefel gallu'r dysgwyr neu islaw lefel y cymwysterau llythrennedd a rhifedd sydd ganddynt eisoes.

Dylai arolygwyr ystyried y cynnydd dros dro a wna dysgwyr tuag at eu targedau a'u nodau unigol a thuag at unrhyw gymwysterau medrau hanfodol hefyd. Dylent archwilio dogfennau olrhain a barnu pa mor dda y mae dysgwyr yn cofnodi eu cynnydd a'u cyrhaeddiad mewn cynlluniau dysgu unigol lle maent yn bodoli. Dylent siarad gyda dysgwyr i asesu eu dealltwriaeth o'u targedau medrau, rôl y cynllun dysgu unigol a'r cynnydd y maent wedi'i wneud mewn medrau ers dechrau'r cwrs. Dylent ofyn i'r dysgwyr am enghreifftiau penodol o sut mae'r medrau newydd y maent wedi'u dysgu wedi'u helpu nhw gyda'u gwaith cwrs pwnc arall ac mewn bywyd y tu allan i'r ystafell ddosbarth.

Dylai arolygwyr ddefnyddio dull astudiaeth achos i arfarnu medrau dysgwyr. Dylent ddewis nifer o ddosbarthiadau ac archwilio lefel y cymwysterau medrau a dyfarniadau credyd y mae dysgwyr yn eu dilyn ar sail unigol. Dylai arolygwyr roi sylw penodol mewn dosbarthiadau medrau hanfodol i unrhyw ganlyniadau asesu cychwynnol a diagnostig a'r modd y mae'r rhain yn llywio cynlluniau a nodau dysgu

unigol. Dylent asesu a yw'r lefel yn ddigon uchel i herio pob dysgwr unigol a pha mor dda y caiff galluoedd unigol dysgwyr eu hystyried i wahaniaethu eu dysgu. Er mwyn gwella eu medrau, dylai dysgwyr fod yn gweithio tuag at fod un lefel yn uwch na chanlyniad eu hasesiad cychwynnol. Dylai arolygwyr olrhain astudiaethau achos unigol wedi'u dewis o'r dosbarthiadau y maent wedi archwilio eu canlyniadau.

Dylai arolygwyr arfarnu ffolderi ac aseiniadau cwrs y dysgwyr a ddewiswyd a thrafod gyda nhw eu dealltwriaeth o'r gwaith sy'n cael ei wneud a sut maent wedi elwa.

Pan fo'n briodol, dylai arolygwyr farnu pa mor dda y mae canlyniadau asesiadau cychwynnol a diagnostig yn llywio targedau a nodau dysgwyr unigol. Dylent farnu pa mor dda y caiff y targedau a'r nodau hyn eu hadlewyrchu mewn cynlluniau dysgu unigol. Dylai arolygwyr farnu pa mor dda y mae dysgwyr yn defnyddio eu cynlluniau dysgu unigol i olrhain eu cynnydd eu hunain a llywio targedau yn y dyfodol.

Mewn dysgu heb ei achredu, dylai arolygwyr farnu pa mor dda y mae dysgwyr yn defnyddio cynlluniau dysgu unigol i ddatblygu medrau fel dysgwyr annibynnol.

Dylai arolygwyr ganolbwyntio'n benodol ar ddysgwyr sy'n cael cymorth gyda llythrennedd a rhifedd a dysgwyr nad Cymraeg neu Saesneg yw eu hiaith gyntaf, lle bo'n briodol. Bydd angen i arolygwyr ystyried hefyd pa mor dda y mae dysgwyr yn cymhwyso eu medr mewn meysydd dysgu eraill.

1.1.5: Yr iaith Gymraeg

Wrth lunio barn gyffredinol ar fedrau Cymraeg dysgwyr, dylai arolygwyr ystyried beth mae'n rhesymol ei ddisgwyl, gan ystyried cefndir a chyd-destun ieithyddol y sefydliadau yn y bartneriaeth a'r ardal y mae'n ei gwasanaethu cyn llunio barn gorfforaethol am safonau mewn Cymraeg. Bydd arolygwyr yn adrodd ar safonau yn yr iaith Gymraeg lle bo'n briodol.

Dylent ystyried:

- man cychwyn y dysgwyr a'r cynnydd a wnânt mewn perthynas â hyn; a
- dysgwyr yng nghyd-destun nodau a pholisi'r darparwr neu'r bartneriaeth mewn perthynas â'i Gynllun/Chynllun Iaith Gymraeg.

Dylai arolygwyr roi sylwadau ar gyfran y dysgwyr sy'n ennill cymwysterau trwy gyfrwng y Gymraeg, lle bo'n briodol.

Safonau da

At ei gilydd, mae'r cyfraddau y mae dysgwyr yn cwblhau ac yn ennill cymwysterau a chredydau arnynt yn uwch na'r rhai mewn darparwyr tebyg eraill ac maent wedi gwella dros y tair blynedd diwethaf. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwneud y cyflawniad a'r cynnydd sy'n ddisgwyliedig ohonynt o leiaf, mewn perthynas â'u cyrhaeddiad blaenorol. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn ennill medrau newydd ac mae ganddynt ddealltwriaeth glir o ba mor dda y maent yn gwneud cynnydd. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn defnyddio ac yn ymarfer eu medrau newydd yn y dosbarth ac yn eu bywydau bob dydd. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwneud cynnydd da.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr sy'n dilyn cyrsiau heb eu hachredu wedi gwella eu gwybodaeth, eu medrau a'u dealltwriaeth ac maent wedi gwneud cynnydd da. Gallant wneud defnydd da o'u dysgu mewn ystod o sefyllfaoedd y tu allan i'r ystafell ddosbarth.

Mae llawer o ddysgwyr yn gwneud defnydd da o gynlluniau dysgu unigol, neu gofnodion eraill, er mwyn eu helpu i ddysgu.

Safonau anfoddhaol

Mae'r cyfraddau y mae lleiafrif sylweddol o ddysgwyr yn cwblhau ac yn ennill eu cymwysterau a chredydau arnynt yn is na chyfraddau darparwr tebyg. Mae'r cyfraddau y mae dysgwyr ar gyrsiau wedi'u hachredu yn cwblhau ac yn ennill eu cymwysterau arnynt yn anfoddhaol o'u cymharu â'r cyfraddau y mae dysgwyr yn llwyddo mewn darparwyr tebyg eraill. Nid yw lleiafrif o ddysgwyr yn ymwybodol o'u nodau dysgu ac nid ydynt yn gwybod pa mor dda y maent wedi symud ymlaen. Nid ydynt yn defnyddio cynlluniau dysgu unigol, na chofnodion eraill, yn effeithiol er mwyn eu helpu i ddysgu a, lle bo'r angen, gwella'u medrau llythrennedd. Nid yw dysgwyr yn defnyddio eu gwybodaeth, eu medrau a'u dealltwriaeth y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Nid yw llawer o ddysgwyr yn gwneud digon o gynnydd mewn perthynas â'u lefel medr a'u cyflawniadau blaenorol.

Lle bo'n briodol, nid yw dysgwyr yn defnyddio eu medrau Cymraeg yn yr ystafell ddosbarth nac mewn sefyllfaoedd anffurfiol.

1.2 Lles

1.2.1 agweddau at gadw'n iach a diogel
1.2.2 cyfranogi mewn dysgu a'i fwynhau
1.2.3 ymglymiad cymunedol a gwneud penderfyniadau
1.2.4 medrau cymdeithasol a medrau bywyd

Materion wrth arolygu'r dangosydd ansawdd

Mae'r ffocws yn y cwestiwn allweddol hwn ar ddeilliannau yn hytrach na darpariaeth. Bydd cwestiynau allweddol eraill, yn enwedig Cwestiwn Allweddol 2, yn ymdrin â gwaith y bartneriaeth yn hyrwyddo lles dysgwyr.

Dylai arolygwyr geisio barnu, cyhyd ag y bo'n bosibl, y materion hynny y mae gan y darparwyr rywfaint o ddylanwad drostynt. Dylent geisio gwneud yn siwr bod ymholiadau yn canolbwyntio ar effaith gwaith y bartneriaeth yn y maes hwn. Dylai arolygwyr ystyried tystiolaeth o unrhyw arolygon perthnasol sy'n cynnwys safbwyntiau dysgwyr.

1.2.1: agweddau at gadw'n iach a diogel;

Dylai arolygwyr ystyried i ba raddau y mae dysgwyr yn teimlo'n ddiogel oddi wrth unrhyw fath o gam-drin corfforol a geiriol naill ai yn narpariaeth y bartneriaeth neu yn

eu gweithle. Dylent farnu, lle bo'n briodol, a oes gan ddysgwyr ddealltwriaeth gadarn o sut gallant gadw'n ddiogel ac yn iach, gan gynnwys trwy'r hyn y maent yn ei fwyta a thrwy weithgarwch corfforol.

1.2.2: cyfranogi mewn dysgu a'i fwynhau

Wrth arfarnu cyfranogi mewn dysgu a'i fwynhau, dylai arolygwyr ystyried presenoldeb, ymddygiad ac agweddau, a'r graddau y mae gan ddisgyblion lais yn yr hyn maent yn ei ddysgu, a sut. Dylent ystyried cyfraddau presenoldeb ar wahanol fathau a lefelau o gyrsiau.

Dylai arolygwyr ganolbwyntio ar y graddau y mae dysgwyr yn dangos brwdfrydedd dros eu dysgu ac yn datblygu eu medrau dysgu eu hunain. Yn ychwanegol, dylent arfarnu a yw dysgwyr yn mwynhau dysgu ac yn cymryd rhan yn llawn ym mhob agwedd ar eu dysgu. Dylai arolygwyr benderfynu i ba raddau y mae dysgwyr yn dangos medrau dysgu annibynnol a pha mor dda y mae eu dysgu yn cynyddu eu gallu i wneud penderfyniadau am faterion sy'n effeithio arnynt. Pan fyddant yn absennol o'r dosbarth, dylent farnu pa mor dda y mae dysgwyr yn defnyddio'u hamser y tu allan i'r dosbarth i gwblhau eu gwaith. Ni ddylid tybio bod cyfradd bresenoldeb isel yn dangos nad yw dysgwyr yn gallu cwblhau eu cwrs.

Wrth arfarnu cyfraniad dysgwyr at beth a sut maent yn dysgu, dylai arolygwyr ystyried:

- a yw barnau disgyblion ar beth a sut maent yn dysgu yn cael eu cymryd o ddifrif;
- sut mae dysgwyr yn trafod y testunau sydd i'w cwmpasu, ac yn helpu i gynllunio cynlluniau gwaith a gweithgareddau; ac
- a yw dysgwyr yn gwneud dewisiadau ynghylch beth a sut maent yn dysgu.

1.2.3: ymglymiad cymunedol a gwneud penderfyniadau

Dylai arolygwyr ystyried y ffyrdd y mae dysgwyr yn cyfrannu at gymuned ddysgu eu darparwr trwy gymryd rhan mewn unrhyw un o'i gyrff cynrychioliadol er enghraifft, fel cynrychiolydd dosbarth neu aelod sy'n fyfyriwr ar fwrdd y llywodraethwyr, grŵp partneriaeth, cangen neu gorff tebyg.

Dylai arolygwyr ystyried sut mae dysgu yn effeithio ar allu unigolion a grwpiau i ymgymryd â rolau gweithredol yn eu cymunedau a chymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau am faterion cymunedol.

1.2.4: medrau cymdeithasol a medrau bywyd

Dylai arolygwyr farnu pa mor dda y mae dysgwyr yn datblygu medrau personol, cymdeithasol a dysgu a pha mor dda y maent yn cymhwyso eu dysgu i amrywiaeth o sefyllfaoedd, er enghraifft, cefnogi eu plant neu'u hwyrion, cymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol, defnyddio eu medrau wrth weithio, a pha mor dda y maent yn defnyddio'u medrau i ddatblygu eu mwynhad personol eu hunain. Dylai arolygwyr ystyried datblygiad medrau cyflogadwyedd a dinasyddiaeth dysgwyr lle bo'n briodol. Dylent ystyried datblygu medrau a hyder dysgwyr y mae eu hangen arnynt i wella eu dysgu eu hunain a mynd ymlaen i'r cyfnod dysgu nesaf.

Wrth arfarnu agweddau, dylech asesu sut mae dysgwyr yn dangos parch, gofal a phryder am bobl eraill, pa mor dda y maent yn cefnogi ei gilydd yn eu gwaith ac a ydynt yn cymryd cyfrifoldeb am eu gweithredoedd a'u gwaith a pha mor dda y mae dysgwyr yn deall eu dewisiadau ar gyfer dilyniant.

Lefelau lles da

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn teimlo'n ddiogel, yn gadarnhaol ac yn hyderus yn eu hamgylchedd dysgu ac maent yn hyderus i gyfrannu at weithgareddau cymunedol os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Lle bo'n briodol, maent yn deall sut i gadw'n ddiogel ac yn iach ac maent yn bwyta'n dda. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr wedi ennill medrau dysgu annibynnol effeithiol ac yn parhau â'u dysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Gwnânt ddefnydd da o'u medrau mewn lleoliadau cymunedol, yn y gwaith neu gyda'u teuluoedd. Maent yn gwella'u hunan-barch a'u hyder. Maent yn dangos lefelau uchel o gymhelliant ac maent yn frwdfrydig. Maent yn mynychu'n dda neu'n gwneud yn siwr eu bod yn dal i fyny â gwaith y maent yn ei golli. Maent yn dangos parch a phryder am bobl eraill ac yn gwrando'n astud. Mae llawer o ddysgwyr yn cymryd cyfrifoldeb am eu dysgu. Maent yn cyfrannu'n dda at drafodaeth grŵp. Mae pob un o'r dysgwyr yn mwynhau eu dysgu. Maent yn deall eu hawliau a'u cyfrifoldebau iddyn nhw eu hunain ac i bobl eraill.

Mae llawer o ddysgwyr yn cymryd rhan fel partneriaid yn y broses gynllunio, yn gweithio ar grwpiau rheoli neu fforymau neu mewn cyfarfodydd arbennig yn eu lle dysgu a, lle bo'n briodol, yn y gymuned.

Lefelau lles anfoddhaol

Nid yw lleiafrif o ddysgwyr yn cyfrannu at drafodaethau neu weithgareddau dosbarth. Mae llawer o ddysgwyr yn dibynnu gormod ar y tiwtor i ymestyn eu dysgu. Nid ydynt yn ymarfer nac yn ymchwilio i'w dysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Cynnydd digonol yn unig a wnânt yn eu datblygiad. Mae cyfraddau presenoldeb lleiafrif o ddysgwyr yn wael ac nid ydynt yn gwneud trefniadau i ddal i fyny ag unrhyw waith y maent yn ei golli. Mae lleiafrif o ddysgwyr yn hwyr i'r dosbarth. Nid yw dysgwyr yn teimlo'n ddiogel ac yn hyderus yn yr amgylchedd dysgu. Nid yw llawer o ddysgwyr yn deall sut i gadw'n ddiogel ac yn iach ac nid ydynt yn parchu hawliau pobl eraill.

Cwestiwn allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Wrth lunio barn gyffredinol ar gyfer y cwestiwn allweddol hwn, dylai arolygwyr roi pwys cyfartal i bob dangosydd ansawdd.

2.1 Profiadau dysgu

2.1.1 bodloni anghenion dysgwyr a chyflogwyr/y gymuned
2.1.2 darpariaeth ar gyfer medrau
2.1.3 darpariaeth Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig
2.1.4 addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang

Materion wrth arolygu'r dangosydd ansawdd

2.1.1: bodloni anghenion dysgwyr a chyflogwyr/y gymuned

Wrth arfarnu'r graddau y mae'r bartneriaeth yn bodloni anghenion, dylai arolygwyr ystyried y cyd-destun y mae'r bartneriaeth yn gweithio ynddo. Gallai hyn fod yn gysylltiedig â darpariaeth addysg a hyfforddiant arall, y ffactorau economaidd gymdeithasol, natur y cyfleoedd cyflogaeth ac anghenion cymunedol yn yr ardal. Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae'r bartneriaeth yn cynnal archwiliadau o ddarpariaeth leol sydd ar gael ledled yr ardal i ystyried:

- anghenion y gymuned ehangach a dysgwyr unigol; a
- blaenoriaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol.

Dylai arolygwyr asesu pa mor dda y mae'r bartneriaeth yn cynllunio ar lefel weithredol i gyflwyno cwricwlwm priodol. Hefyd, dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae'r cynlluniau hyn yn adlewyrchu blaenoriaethau Cyflenwi Dysgu Cymunedol i Gymru. Dylent ystyried data ynghylch pa mor dda y mae'r bartneriaeth yn recriwtio dysgwyr o grwpiau blaenoriaeth. Yn benodol, dylid ystyried anghenion dysgwyr nad ydynt wedi cael llawer o brofiad llwyddiannus o ddysgu strwythuredig, yn enwedig dysgwyr ag anghenion medrau sylfaenol.

Dylai arolygwyr asesu priodoldeb y medrau a'r cymwysterau a gynigir yng ngoleuni'r uchod a'r graddau y mae cymorth ar gael i ddysgwyr er mwyn eu helpu i oresgyn rhwystrau rhag dysgu. Dylai arolygwyr hefyd asesu ystod y cyfleoedd dewis a dilyniant gwirioneddol sydd ar gael i ddysgwyr yn ardal y bartneriaeth neu yn rhywle arall. Dylent asesu pa mor dda y mae partneriaethau yn cydweithio â phobl eraill i ddarparu cyfleoedd dilyniant.

Dylai arolygwyr hefyd ystyried y ffordd y caiff cyfleoedd teg ar gyfer dysgu eu cynnig i fodloni anghenion ystod o ddysgwyr, er enghraifft, y rhai nad oes digon o gynrychiolaeth ohonynt yn aml mewn addysg, dysgwyr nad Cymraeg neu Saesneg yw eu hiaith gyntaf, ceiswyr lloches, ffoaduriaid, pobl sy'n byw mewn ardaloedd anghysbell, pobl sy'n dychwelyd i ddysgu a phobl sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig.

2.1.2: darpariaeth ar gyfer medrau

Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae'r bartneriaeth yn bwriadu ymgorffori medrau hanfodol ar draws y cwricwlwm i wella profiadau dysgwyr sy'n dymuno datblygu eu medrau llythrennedd (cyfathrebu), rhifedd (cymhwyso rhif), a TGCh ymhellach. Dylent roi pwyslais cryf ar fedrau llythrennedd gan fod y rhain yn hanfodol i ddysgwyr fanteisio ar feysydd eraill y cwricwlwm a bywyd cymunedol.

Dylai arolygwyr arfarnu pa mor dda y mae athrawon, hyfforddwyr a rheolwyr;

- yn defnyddio canlyniadau unrhyw asesiadau cychwynnol a diagnostig wrth gynllunio ar gyfer gwahaniaethu ym mhob sesiwn ar draws y cwricwlwm;
- yn elwa ar gyfleoedd ar gyfer datblygu medrau hanfodol ym mhob sesiwn cwrs;

- yn bodloni anghenion medrau unigol dysgwyr, yn ennyn eu diddordeb, yn datblygu eu hyder ac yn hyrwyddo dysgu llwyddiannus; ac
- yn rhoi medrau allweddol yn eu cyd-destun yng nghyrsiau neu feysydd diddordeb dysgwyr.

Dylai arolygwyr archwilio sampl o gynlluniau gwaith a chynlluniau sesiwn i farnu pa mor dda y mae staff wedi ymgorffori medrau, yn arbennig medrau llythrennedd a meddwl, ond hefyd yn defnyddio cyfleoedd i gynnwys medrau rhifedd a TGCh, ar draws pynciau. Dylai arolygwyr asesu pa mor dda y mae athrawon a hyfforddwyr yn gwahaniaethu addysgu ar gyfer dysgwyr ar lefelau uwchlaw ac islaw lefel y brif sesiwn. Dylent asesu'r graddau y mae darparwyr yn herio dysgwyr mwy abl a dylent hefyd farnu pa mor dda y mae'r cynlluniau hyn yn datblygu medrau dysgwyr mewn cyfathrebu, meddwl beirniadol a gweithio gydag eraill mewn grwpiau.

Dylai arolygwyr arfarnu effaith unrhyw bolisïau neu drefniadau sy'n anelu at ddatblygu medrau hanfodol ar draws darpariaeth y bartneriaeth dros gyfnod ac mewn ystod eang o gyd-destunau. Dylent asesu adroddiad hunanasesu a chynllun datblygu ansawdd y bartneriaeth i arfarnu ymrwymiad y bartneriaeth i fedrau hanfodol. Dylai arolygwyr siarad gydag athrawon a hyfforddwyr i benderfynu a yw polisi medrau'r bartneriaeth yn cael ei rannu ar lefel staff cyfan.

Dylai arolygwyr arfarnu effeithiolrwydd y strategaethau ar gyfer datblygu medrau hanfodol dysgwyr. Gall y rhain gynnwys:

- datblygu medrau wedi'i ymgorffori trwy'r cyrsiau a ddewiswyd gan ddysgwyr, lle caiff medrau eu haddysgu gan athrawon medrau hanfodol arbenigol neu drwy addysgu pâr neu addysgu ar y cyd yn nosbarthiadau'r dysgwyr;
- datblygu medrau wedi'i roi mewn cyd-destun ar gyfer cwrs y dysgwyr neu faes diddordeb sy'n cael ei addysgu fel dosbarth ar wahân naill ai gan athro arbenigol neu athro galwedigaethol; a
- dosbarthiadau medrau hanfodol ar wahân sy'n cael eu haddysgu gan arbenigwyr medrau hanfodol.

Dylai arolygwyr asesu pa mor dda y mae'r bartneriaeth yn monitro ac yn arfarnu data medrau hanfodol ac yn defnyddio'r data i gynllunio ar gyfer gwella. Dylent arfarnu pa mor dda y mae'r bartneriaeth yn defnyddio'r data hwn i gynllunio ar gyfer anghenion cymorth ychwanegol trwy gymorth dysgu.

Dylai arolygwyr asesu'r graddau y mae'r bartneriaeth yn annog **pob** dysgwr i ddatblygu eu medrau, yn enwedig y dysgwyr hynny sy'n dychwelyd i ddysgu sydd â chymhwyster Saesneg a mathemateg TGAU a'r rhai a ddylai fod yn datblygu medrau ar lefel 3.

Dylai arolygwyr siarad â dysgwyr, athrawon a hyfforddwyr ac arfarnu unrhyw ddogfennau olrhain a CDUau i arfarnu pa mor dda y mae'r athrawon a'r hyfforddwyr yn olrhain cynnydd dysgwyr ar lefel unigol.

Wrth farnu ansawdd y ddarpariaeth, dylai arolygwyr ystyried darpariaeth y cymorth sydd gan y bartneriaeth ar waith i ddatblygu medrau iaith ar gyfer dysgwyr nad yw Cymraeg neu Saesneg yn iaith gyntaf iddynt.

2.1.3: darpariaeth Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig

Dylai arolygwyr asesu graddau'r cyfleoedd dysgu cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog a gynigir i ddysgwyr. Dylent ystyried nodweddion iaith ardal y bartneriaeth, nifer y siaradwyr Cymraeg sy'n byw yn yr ardal, y defnydd o'r Gymraeg gan diwtoriaid a dysgwyr yn yr ystafell ddosbarth ac ystod y deunyddiau ac adnoddau cwrs cyfrwng Cymraeg.

Dylai arolygwyr ystyried ystod y gweithgareddau cyfoethogi a chyfleoedd eraill ar gyfer dysgwyr i ehangu eu profiadau ac ymestyn eu datblygiad personol.

Dylent farnu'r graddau y mae'r bartneriaeth yn hyrwyddo datblygiad gwybodaeth a dealltwriaeth dysgwyr o nodweddion diwylliannol, economaidd, amgylcheddol, hanesyddol ac ieithyddol Cymru.

2.1.4: addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang

Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i ymestyn eu gwybodaeth am ddinasyddiaeth fyd-eang a datblygiad cynaliadwy (ADCDFE).

Dylai arolygwyr ystyried y graddau y mae'r cwricwlwm a gweithgareddau allgyrsiol yn helpu dysgwyr i ddatblygu gwybodaeth, medrau a gwerthoedd ADCDFE, er enghraifft:

- datblygu safbwynt cyfiawnder cymdeithasol;
- gwerthfawrogiad o amrywiaeth fyd-eang; a
- datblygu dinasyddiaeth.

Profiadau dysgu da

Mae'r bartneriaeth yn darparu ystod dda o gyrsiau a chyfleoedd dysgu ar lefelau sy'n briodol i anghenion dysgwyr yn yr ardal. Mae'r bartneriaeth yn cynnal archwiliadau o anghenion y gymuned. Mae'n defnyddio'r wybodaeth hon yn dda i drefnu bod y cwricwlwm yn cael ei gyflwyno mewn ffordd sy'n adlewyrchu anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach. Caiff bron pob un o'r dysgwyr ddewis da o ddarpariaeth gyda llwybrau dilyniant clir sy'n gweddu i'w dewisiadau a'u hanghenion. Mae'r bartneriaeth yn ymatebol i anghenion y gymuned a gofynion allanol eraill. Mae llawer o ddysgwyr o grwpiau nad oes digon o gynrychiolaeth ohonynt mewn addysg yn cofrestru ar gyrsiau a ddarperir gan y bartneriaeth. Ceir ystod dda o weithgareddau cyfoethogi sy'n hygyrch i bob dysgwr. Mae gan y bartneriaeth drefniadau effeithiol a chydlynus ar gyfer gwella medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh dysgwyr o bob gallu. Caiff y rhan fwyaf o'r dysgwyr gyfleoedd da i ddysgu am ddinasyddiaeth fyd-eang a datblygiad cynaliadwy ac i ddatblygu eu gwybodaeth am Gymru a'r iaith Gymraeg yn ogystal. Mae pob un o'r darparwyr yn gweithio mewn ffordd nad yw'n gystadleuol er mwyn lleihau dyblygu a llenwi bylchau a nodwyd yn y ddarpariaeth gyffredinol.

Profiadau dysgu anfoddhaol

Nid yw'r bartneriaeth yn dadansoddi anghenion dysgwyr a'r gymuned yn systematig ac, o ganlyniad, ceir cyfatebiaeth anfoddhaol rhwng yr anghenion hyn ac ystod a lefel

y cyrsiau a ddarperir gan y bartneriaeth. Nid yw'r bartneriaeth yn cynnig ystod digon eang o gyfleoedd i ddysgwyr fynd ymlaen i lefelau dysgu uwch neu i gyrsiau a gynigir gan ddarparwyr eraill. Mae'r cwricwlwm a gynigir i ddysgwyr yn adlewyrchu patrwm blynyddoedd blaenorol. Mae trefniadau'r bartneriaeth ar gyfer gwella medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh dysgwyr yn gyfyngedig ac nid ydynt yn gydlynus. Nid yw'r bartneriaeth yn gwneud digon i ehangu cyfranogiad mewn addysg ac nid yw llawer o grwpiau fel merched sy'n oedolion yn dychwelyd i'r gwaith, yn cael digon o gyfleoedd i ymestyn eu medrau, eu hyder a'u gwybodaeth. Nid yw'r bartneriaeth yn gwneud digon i ymestyn gwybodaeth dysgwyr am Gymru a'r iaith Gymraeg yn ogystal â gwybodaeth dysgwyr am ddinasyddiaeth fyd-eang a datblygiad cynaliadwy. Mae'r gweithgareddau cyfoethogi yn gyfyngedig iawn, ac ychydig iawn o ddysgwyr sy'n cymryd rhan ynddynt.

2.2 Addysgu neu hyfforddi

2.2.1 ystod ac ansawdd y dulliau addysgu/hyfforddi
2.2.2 asesu dysgu ac asesu ar gyfer dysgu

Materion wrth arolygu'r dangosydd ansawdd

Dylai'r ffocws fod ar effaith addysgu/hyfforddi ar ddysgu ac nid ar ddefnyddio proses benodol ar wahân i'w heffaith.

2.2.1: ystod ac ansawdd y dulliau addysgu/hyfforddi

Bydd arolygwyr yn arfarnu effeithiolrwydd y strategaethau addysgu a hyfforddi ond ni fyddant yn rhagnodol ynglŷn â dulliau addysgu.

Dylai arolygwyr arfarnu'r graddau y mae athrawon a hyfforddwyr:

- yn meddu ar wybodaeth bynciol a thechnegol gyfoes;
- yn disgwyl llawer gan bob un o'r dysgwyr;
- yn cynllunio'n effeithiol a bod ganddynt amcanion clir ar gyfer sesiynau a addysgir a phrofiadau dysgu eraill;
- yn defnyddio ystod o ddulliau ac adnoddau addysgu a hyfforddi sy'n ennyn diddordeb disgyblion ac yn eu hysgogi a'u herio;
- yn canolbwyntio'n briodol ar ddatblygu medrau dysgwyr, yn enwedig mewn llythrennedd;
- yn fodelau iaith da eu hunain;
- yn sefydlu perthynas waith dda sy'n meithrin dysgu;
- yn defnyddio staff technegol a staff cymorth dysgu yn effeithiol; ac
- yn effeithiol o ran darparu gwaith ymestynnol i fodloni anghenion pob un o'r dysgwyr, beth bynnag fo'u gallu.

2.2.2: asesu dysgu ac asesu ar gyfer dysgu

Dylai arolygwyr arfarnu a yw athrawon a hyfforddwyr yn sicrhau bod dysgwyr yn adolygu eu dysgu eu hunain yn rheolaidd, yn deall eu cynnydd ac yn cymryd rhan

mewn gosod eu targedau dysgu eu hunain. Dylent arfarnu pa mor dda y mae athrawon a hyfforddwyr wedi asesu lefel gwybodaeth, medrau a dealltwriaeth dysgwyr unigol ar ddechrau eu dysgu cyfredol. Dylai hyn gynnwys pa mor dda y mae athrawon a hyfforddwyr yn defnyddio cynlluniau dysgu unigol i gofnodi man cychwyn dysgwr, beth yw eu dyheadau dysgu a'r cynnydd y maent yn ei wneud.

Dylai arolygwyr arfarnu:

- pa mor dda y mae adborth llafar ac ysgrifenedig yn galluogi dysgwyr i wybod pa mor dda y maent yn gwneud a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella;
- priodoldeb asesu ffurfiannol a chrynodol a'r defnydd a wneir ohono i gynllunio a gwella'r dysgu; a
- pha mor dda y mae dysgwyr yn cymryd rhan mewn asesu eu cynnydd a'u cyflawniadau eu hunain a pha mor dda y maent yn deall sut i wella.

Addysgu/hyfforddi da

Mae'r addysgu a'r hyfforddi yn rhoi heriau priodol i ddysgwyr. Mae athrawon a hyfforddwyr yn paru anghenion y rhan fwyaf o ddysgwyr yn dda trwy gynllunio profiadau a gweithgareddau sy'n cefnogi dysgu. Caiff y gwersi a'r profiadau dysgu eu cynllunio'n dda. Mae athrawon a hyfforddwyr yn defnyddio gwybodaeth bynciol a thechnegol yn dda. Mae'r rhan fwyaf o athrawon a hyfforddwyr yn defnyddio adnoddau dysgu'n dda ac maent yn defnyddio asesiadau'n dda i wella gwybodaeth, medrau a deilliannau dysgwyr. Maent yn defnyddio cyfleoedd yn dda i ddatblygu medrau llythrennedd dysgwyr. Maent yn cadw cofnodion priodol o gyflawniadau dysgwyr ac yn rhoi adborth ysgrifenedig neu lafar da iddynt ar yr hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella safon eu gwaith. Maent yn helpu dysgwyr i wneud defnydd da o gynlluniau dysgu unigol i fesur eu cynnydd a nodi'r hyn y mae angen iddynt ei wneud nesaf.

Addysgu/hyfforddi anfoddhaol

Mae'r addysgu a'r hyfforddi yn aml yn annigonol oherwydd nad yw athrawon a hyfforddwyr yn herio ac yn ennyn diddordeb llawer o'r dysgwyr. Mae gwybodaeth bynciol neu wybodaeth dechnegol lleiafrif sylweddol o athrawon a hyfforddwyr yn annigonol ar gyfer lefel y cwrs. Mae llawer o'r athrawon a'r hyfforddwyr yn methu defnyddio amrywiaeth briodol o ddulliau dysgu. Yn aml, nid yw athrawon a hyfforddwyr yn cynllunio asesiadau'n ddigon da ac nid ydynt yn rhoi digon o adborth ysgrifenedig neu lafar i ddysgwyr ar eu cynnydd a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella safon eu gwaith. Nid ydynt yn herio dysgwyr yn ddigon da er mwyn eu helpu i wella eu gwybodaeth, eu medrau a'u dealltwriaeth. Ychydig iawn o anogaeth y maent yn ei rhoi i ddysgwyr i wella'u lefelau llythrennedd. Mae llawer o athrawon a hyfforddwyr yn cadw cofnodion gwael o asesiadau dysgwyr. Nid yw llawer o athrawon a hyfforddwyr yn rhoi digon o sylw i ddysgwyr unigol.

2.3 Gofal, cymorth ac arweiniad

2.3.1 darpariaeth ar gyfer iechyd a lles
2.3.2 gwasanaethau, gwybodaeth ac arweiniad arbenigol
2.3.3 trefniadau diogelu
2.3.4 anghenion dysgu ychwanegol

Materion wrth arolygu'r dangosydd ansawdd

Dylai'r prif ffocws yn y dangosydd ansawdd hwn fod ar effaith gofal, cymorth ac arweiniad ar safonau a lles dysgwyr yn y gymuned sy'n oedolion yn hytrach nag ar y gweithdrefnau a'r trefniadau. Yn benodol, dylai arolygwyr arfarnu pa mor dda y mae'r trefniadau yn cael effaith lesol ar ddysgwyr sy'n agored i niwed. Wrth arfarnu gofal, cymorth ac arweiniad, dylai arolygwyr ystyried barnau'r tîm ar safonau a lles.

2.3.1: darpariaeth ar gyfer iechyd a lles

At ei gilydd, dylai arolygwyr arfarnu trefniadau'r bartneriaeth ar gyfer hyrwyddo iechyd a lles. Gallai hyn gynnwys cyrsiau sydd ar gael, fel cyrsiau bwyta'n iach a chyrsiau sy'n hyrwyddo iechyd corfforol ac iechyd meddwl yn ogystal ag arweiniad a chymorth arall y mae'r bartneriaeth yn eu darparu i ddiogelu lles dysgwyr a hyrwyddo eu datblygiad personol.

Dylai arolygwyr adrodd ar achosion amlwg o dorri'r ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch o dan y dangosydd ansawdd hwn.

2.3.2: gwasanaethau, gwybodaeth ac arweiniad arbenigol

Dylai arolygwyr farnu effeithiolrwydd arweiniad diduedd i alluogi pob dysgwr i wneud dewisiadau realistig am eu dysgu. Dylent asesu a yw ymgynghorwyr annibynnol o fewn y bartneriaeth, ac o asiantaethau allanol, ar gael i ddysgwyr yn y gymuned sy'n oedolion. Dylent farnu effeithiolrwydd ffynonellau tystiolaeth gwybodaeth fel prosbectysau, taflenni cwrs a gwefannau'r bartneriaeth neu wefannau ei haelodau.

Dylai arolygwyr ystyried cydlyniad ac effeithiolrwydd y ddarpariaeth ar gyfer cymorth personol ac arbenigol i ddysgwyr yn y gymuned sy'n oedolion. Bydd hyn yn cynnwys effeithiolrwydd gwasanaethau asiantaethau cymorth arbenigol, ac a yw dysgwyr yn gallu manteisio arnynt. Yn aml, mae gan ddysgwyr yn y gymuned anghenion cymorth sy'n gallu rhwystro eu cyfranogiad mewn dysgu. Gall llawer o ffactorau fod yn rhwystrau sylweddol i ddysgwyr cymunedol, gan gynnwys cyfrifoldebau personol, ariannol, cartref, cludiant, iechyd a gofal teulu. Dylai arolygwyr asesu pa mor dda y mae darparwyr o fewn y bartneriaeth yn trefnu bod gwasanaethau cymorth arbenigol ar gael i ddysgwyr o ddarparwyr eraill o fewn y bartneriaeth lle bynnag y bo modd.

2.3.3: trefniadau diogelu

Dylai trefniadau diogelu'r bartneriaeth a'r darparwr sicrhau bod recriwtio diogel a bod yr holl ddysgwyr yn cael eu hamddiffyn. Mae'r arolygiaeth yn disgwyl i bob darparwr gydymffurfio â gofynion fel y cânt eu hamlinellu yn y ddeddfwriaeth sy'n ymdrin â'r

maes hwn (gweler Atodiad 3). Bydd angen i arolygwyr ganfod a yw trefniadau darparwyr y bartneriaeth sy'n cyflenwi darpariaeth yn uniongyrchol yn bodloni gofynion ac nad ydynt yn destun pryder.

Bydd angen i arolygwyr ganfod a oes gan y darparwr drefniadau recriwtio, disgyblu ac adrodd effeithiol ar waith i sicrhau addasrwydd staff a gwirfoddolwyr. Nid oes gofyniad i staff a benodwyd cyn 2002 gael gwiriad cyfredol gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol nac i ddarparwyr gynnal gwiriadau bob tair blynedd o staff. Hefyd, nid oes gofyniad cyfreithiol i ddarparwyr wirio tiwtoriaid dysgu oedolion oni bai bod eu gweithgareddau'n dod o fewn categori sy'n mynnu gwiriad yn gyfreithiol. Fodd bynnag, dylai arolygwyr wirio bod darparwyr wedi cynnal asesiadau risg o ddosbarthiadau oedolion a bod darparwyr wedi cynnal gwiriadau cyn cyflogi ar yr holl staff.

2.3.4 anghenion dysgu ychwanegol (ADY)

Mae'r term anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn berthnasol i ddysgwyr o bob oedran, oedolion a phlant, y mae eu hanghenion dysgu yn ychwanegol i anghenion y mwyafrif o'u cyfoedion.

Gweler Atodiad 5 am fwy o arweiniad.

Dylai arolygwyr arfarnu effeithiolrwydd cyffredinol y ddarpariaeth a wna'r bartneriaeth ar gyfer unrhyw gategori o ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae hyn yn debygol o gynnwys y trefniadau cymorth ychwanegol a wna'r darparwyr i fodloni anghenion unigol yn ogystal â darparu cymorth dysgu ychwanegol ar gyfer dysgwyr y nodwyd bod angen cymorth ychwanegol arnynt gyda medrau sylfaenol.

Gofal, cymorth ac arweiniad da

Mae gwybodaeth a chyngor diduedd ar gael i'r holl ddysgwyr sy'n oedolion yn y gymuned i'w helpu i ddewis y cwrs cywir ar y lefel gywir gyda'r darparwr cywir.

Mae partneriaethau yn gwneud yn siwr eu bod yn rhoi cymorth priodol i bob un o'r dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol i ddysgu, gan gynnwys darparu offer arbennig ac addasiadau. **Mae trefniadau'r darparwr ar gyfer diogelu yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.** Mae gan bob un o'r darparwyr bolisïau a gweithdrefnau caeth ar gyfer diogelu oedolion a'u plant ac mae pob un o'r staff yn gwybod sut i roi'r rhain ar waith. Mae pob un o'r dysgwyr yn gwybod am yr ystod o wasanaethau cymorth y gallant fanteisio arnynt. Mae darparwyr o fewn y bartneriaeth yn trefnu bod eu gwasanaeth arbenigol ar gael i ddarparwyr eraill y bartneriaeth.

Gofal, cymorth ac arweiniad anfoddhaol

Nid yw llawer o ddysgwyr yn cael eu hasesu'n dda. Nid yw darparwyr yn gwneud digon o ddefnydd o gynlluniau dysgu unigol i amlinellu anghenion dysgu ychwanegol dysgwyr a dod o hyd i ffyrdd addas o fynd i'r afael â nhw, lle bo'n briodol. Nid yw'r bartneriaeth yn darparu offer neu addasiadau arbenigol ar gyfer llawer o ddysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol i'w helpu i ddysgu. Mae'r gweithdrefnau ar

gyfer asesu risg yn amrywio gormod ac mae'r trefniadau ar gyfer datrys materion yn rhy annelwig. **Nid yw trefniadau'r darparwr ar gyfer diogelu yn bodloni gofynion ac maent yn destun pryder difrifol.** Nid yw llawer o ddysgwyr yn ymwybodol o'r gwasanaethau cymorth sydd ar gael iddynt. Nid yw darparwyr y bartneriaeth yn rhannu eu gwasanaethau arbenigol.

2.4 Yr amgylchedd dysgu

2.4.1 ethos, cydraddoldeb ac amrywiaeth
2.4.2 amgylchedd ffisegol

Materion wrth arolygu'r dangosydd ansawdd

2.4.1: ethos, cydraddoldeb ac amrywiaeth

Dylai arolygwyr farnu pa mor dda y mae'r bartneriaeth:

- yn sefydlu ethos sy'n gynhwysol;
- yn herio pob math o wahaniaethu neu anghydraddoldeb ar gyfer pob grŵp a allai o bosibl ddioddef yn sgil diffyg cyfleoedd teg ar gyfer dysgu a/neu gyflogaeth;
- yn cynnig hawl gyfartal i'r cwricwlwm ac yn herio stereoteipiau yn newisiadau dysgwyr;
- yn datblygu agweddau goddefgar ac yn gwneud yn siwr bod pob un o'r dysgwyr a'r staff yn rhydd oddi wrth aflonyddwch; ac
- yn hyrwyddo atal a chael gwared ar ymddygiad gormesol trwy ei pholisïau a'i gweithdrefnau.

Dylai arolygwyr arfarnu a yw'r bartneriaeth:

- yn rhannu polisïau a ddeellir yn dda sy'n hyrwyddo cyfle cyfartal a hawliau dynol;
- yn meddu ar gynllun gweithredu sy'n sicrhau bod y polisi'n cael ei gyflwyno;
- yn darparu hyfforddiant cydraddoldeb priodol ar gyfer staff; ac
- yn monitro ac yn mynd i'r afael ag unrhyw faterion neu gwynion cysylltiedig sy'n codi.

2.4.2: amgylchedd ffisegol

Dylai arolygwyr farnu:

- a oes digon o adnoddau sy'n gweddu'n dda i anghenion y dysgwyr;
- a yw'r adeiladau yn darparu amgylchedd dysgu ysgogol i gefnogi'r dysgu, yr addysgu a'r hyfforddi;
- a yw'r adeiladau yn gyfleus ac yn groesawgar ar gyfer dysgwyr cymunedol;
- a yw'r adeiladau a'r offer arbenigol yn gyfoes; ac
- a yw'r adeiladau ym mhob canolfan a ddefnyddir gan y bartneriaeth yn ddigonol ac yn cael eu cynnal yn dda.

Amgylchedd dysgu da

Ceir systemau a gweithdrefnau effeithiol i fonitro a chael gwared ar bob math o wahaniaethu ac aflonyddwch. Mae dysgwyr yn dangos lefel dda o wybodaeth a dealltwriaeth o'r egwyddorion sy'n ategu cyfle cyfartal. Mae gan y bartneriaeth ddull da ar gyfer cynhwysiant cymdeithasol ac addysgol. Mae systemau effeithiol ar waith i hyrwyddo a monitro cyfranogiad dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig gan gynnwys cymunedau ethnig lleiafrifol, dysgwyr anabl, dysgwyr o ardaloedd difreintiedig a phobl nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf. Mae bron pob un o'r adnoddau dysgu a'r adeiladau yn addas at eu diben ac mae llawer yn agos at ble mae pobl yn byw. Mae cyfleusterau TGCh o safon dda ar gael i ddysgwyr ac mae adnoddau dysgu da ar gael iddynt.

Amgylchedd dysgu anfoddhaol

Mae'r systemau a'r gweithdrefnau ar gyfer monitro gwahaniaethu ac aflonyddwch yn annigonol, ac nid yw'r bartneriaeth yn cadw unrhyw gofnodion defnyddiol o achosion o ymddygiad gwahaniaethol. Nid yw llawer o ddysgwyr yn gyfarwydd ag egwyddorion cyfle cyfartal. Nid yw lleiafrif sylweddol o leoliadau'r bartneriaeth yn addas at y diben y maent yn cael eu defnyddio. Nid yw lleiafrif sylweddol o'r ystafelloedd addysgu ym mhob lleoliad yn cynnwys adnoddau dysgu digon da. Nid oes gan bartneriaethau ddealltwriaeth dda o nodweddion demograffig eu carfan o ddysgwyr a phrin yw'r mentrau sydd ganddynt i hyrwyddo a chynyddu cyfranogiad dysgwyr o grwpiau nad oes llawer o gynrychiolaeth ohonynt neu o gefndiroedd difreintiedig. Nid yw'r lleoliadau mewn lle da ac mae'r amgylchedd yn wael ar gyfer dysgu. Nid oes cyfleusterau TGCh o safon dda ar gael i ddysgwyr a phrin yw'r adnoddau dysgu sydd ar gael.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?

Wrth lunio barn gyffredinol ar gyfer y cwestiwn allweddol hwn, bydd arolygwyr yn rhoi pwys cyfartal i bob dangosydd ansawdd.

3.1 Arweinyddiaeth

3.1.1 cyfeiriad strategol ac effaith yr arweinyddiaeth
3.1.2 llywodraethwyr neu fyrddau goruchwylio eraill
3.1.3 bodloni blaenoriaethau cenedlaethol a lleol

Materion wrth arolygu'r dangosydd ansawdd

3.1.1: cyfeiriad strategol ac effaith yr arweinyddiaeth

Prif gyfrifoldeb y prif swyddogion a'r uwch reolwyr yn y bartneriaeth yw gwneud yn siŵr bod pob un o'r dysgwyr yn cael safon uchel o addysg a hyfforddiant, beth bynnag fo'r lefel neu'r maes astudio y maent yn ei ddewis. Dylai arolygwyr ystyried i ba raddau y mae gan arweinwyr nodau clir, amcanion strategol, cynlluniau a pholisïau sy'n canolbwyntio ar fodloni anghenion dysgwyr yn y gymuned sy'n oedolion. Dylent roi ystyriaeth briodol i'r barnau ar safonau a gyflawnir gan ddysgwyr a'u lles wrth lunio barn ar arweinyddiaeth a rheolaeth.

Wrth arfarnu cyfeiriad strategol ac effaith yr arweinyddiaeth, dylai arolygwyr farnu:

- pa mor effeithiol y mae arweinwyr yn gweithio gyda'i gilydd a gyda rhanddeiliaid eraill i hyrwyddo cyfeiriad strategol y bartneriaeth;
- effeithiolrwydd y cyfathrebu o fewn y bartneriaeth;
- effaith arweinwyr ar ddiwylliant a morâl y bartneriaeth;
- pa mor dda y caiff rolau a chyfrifoldebau eu diffinio a'u rhannu ar draws y bartneriaeth ac a yw'r rhychwantau rheolaeth a llinellau atebolrwydd mewn uwch dimau rheoli a rheolwyr canol yn hyfyw a chytbwys;
- i ba raddau y mae pob un o'r staff yn deall ac yn cyflawni eu rolau mewn perthynas uniongyrchol â nodau, cynlluniau a chyfrifoldebau strategol penodol;
- pa mor effeithiol y mae arweinwyr yn rheoli eu hamser eu hunain i flaenoriaethu gweithgareddau yn briodol;
- cydlyniad strwythurau rheoli a phwyllgorau;
- pa mor effeithiol y caiff cyfarfodydd eu trefnu a'u cynnal i wella busnes y bartneriaeth a pherfformiad dysgwyr; ac
- effeithiolrwydd defnydd arweinwyr o ddata i fonitro a herio perfformiad.

Dylai arolygwyr roi ystyriaeth ofalus i rôl arweinwyr y darparwyr a'r uwch swyddogion corfforaethol wrth osod naws y bartneriaeth a gosod safonau uchel ar gyfer staff a dysgwyr a sefydlu gwerthoedd ar y cyd.

Dylai arolygwyr ystyried a yw arweinwyr:

- yn mynd i'r afael â thanberfformio yn gadarn; ac
- yn defnyddio gosod targedau i ysgogi gwelliannau.

Dylai arolygwyr arfarnu effaith arweinwyr o ran y ffordd y maent yn rheoli perfformiad staff er mwyn helpu staff i wella'u harfer. Dylent hefyd farnu a yw arweinwyr a rheolwyr yn mynd i'r afael â materion tanberfformio yn gadarn ac yn uniongyrchol pan fo angen hynny. Dylai arolygwyr farnu a yw'r rheolaeth ar berfformiad yn nodi anghenion hyfforddi a datblygu yn glir ac a gaiff y rhain eu blaenoriaethu'n briodol ac a eir i'r afael â'r rhain yn llawn. Gallent nodi a oes targedau gwella priodol sy'n cefnogi'r gwaith o gyflawni'r nodau strategol mewn cynlluniau datblygu ac mewn cynlluniau eraill yn cael eu gosod ar gyfer staff.

3.1.2: llywodraethwyr neu fyrddau goruchwylio eraill

Mewn arolygiadau partneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned, wrth lunio barn gyffredinol ar gyfer y cwestiwn allweddol hwn, dylai arolygwyr roi'r pwys mwyaf i farnau am bartneriaethau strategol. Yn y cyd-destun hwn, mae 'byrddau goruchwylio' yn cyfeirio at rwydweithiau cynllunio ardaloedd lleol ar gyfer Dysgu Oedolion yn y Gymuned.

Dylent arfarnu pa mor dda y mae'r bartneriaeth:

- yn gosod cyfeiriad strategol priodol yn ogystal â chytuno ar natur a chwmpas y ddarpariaeth;

- yn datblygu ac yn deall ei rolau a'i chyfrifoldebau;
- yn herio pob darparwr sy'n aelod i wella darpariaeth yn barhaus;
- yn goruchwylio'r safonau a'r ansawdd a gyflawnir gan ddysgwyr ym mhob rhan o'r bartneriaeth; ac
- yn goruchwylio gweithdrefnau ac arferion y bartneriaeth mewn perthynas â chwynion ac apeliadau.

3.1.3: bodloni blaenoriaethau cenedlaethol a lleol

Dylai arolygwyr farnu ymateb y bartneriaeth i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol ar gyfer addysg. Dylent hefyd ystyried ymatebolrwydd y bartneriaeth i newidiadau mewn blaenoriaethau lleol a chenedlaethol, fel:

- Cyflenwi Dysgu Cymunedol i Gymru;
- y Fframwaith Ansawdd ac Effeithiolrwydd;
- Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (FfCChC);
- Agenda Trawsnewid Llywodraeth Cymru; a
- dulliau ar gyfer rheolaeth ariannol a rheoli adnoddau sy'n helpu'r bartneriaeth i wella'i blaenoriaethau addysgol.

Arweinyddiaeth dda

Mae prif swyddogion ac uwch reolwyr wedi ymrwymo'n gryf i weithio mewn partneriaeth â darparwyr eraill yn y bartneriaeth a chytuno pwy ddylai arwain mewn meysydd gwaith penodol. Maent yn rhoi cyfarwyddyd da i'w staff. Mae morâl y staff yn dda ar y cyfan ac mae staff yn helpu datblygu a pherchnogi blaenoriaethau strategol y bartneriaeth.

Mae pob un o'r darparwyr a'r cyfranogion yn yr ardal yn cymryd rhan yn y bartneriaeth. Maent yn gweithio gyda'i gilydd yn dda i sefydlu strwythur clir ar gyfer rheoli a chydlynu dysgu oedolion yn y gymuned. Mae partneriaethau yn aml yn sefydlu grŵp ffurfiol i reoli'r gwaith.

Arweinyddiaeth anfoddhaol

Nid yw'r rheolwyr uchaf yn yr awdurdod lleol, y sefydliad addysg bellach, y ganolfan iaith ranbarthol, a'r cyngor gwirfoddol sirol a sefydliadau addysg uwch yn rhoi arweiniad cryf i'w staff i weithio mewn partneriaeth. Maent yn ymbellhau oddi wrth gyfrifoldeb am safonau. Mae morâl y staff yn anfoddhaol. Mae'r trefniadau ar gyfer cyfathrebu yn gyfyngedig, felly nid oes gan y bartneriaeth strwythur rheoli clir ar gyfer cydlynu dysgu oedolion yn y gymuned ac ni ddynodwyd y cyfrifoldeb am reoli'r bartneriaeth neu'i gwaith i unrhyw grwpiau.

3.2 Gwella ansawdd

3.2.1 hunanasesu, gan gynnwys gwrando ar ddysgwyr ac eraill
3.2.2 cynllunio a sicrhau gwelliant
3.2.3 ymglymiad mewn rhwydweithiau arfer broffesiynol

Materion wrth arolygu'r dangosydd ansawdd

3.2.1: hunanasesu, gan gynnwys gwrando ar ddysgwyr ac eraill

Hunanasesu cywir a chynhwysfawr sydd wrth wraidd yr holl drefniadau ar gyfer gwella ansawdd. Dylai ffocws hunanasesu fod ar nodi blaenoriaethau ar gyfer gwella, monitro darpariaeth ac asesu deilliannau. Mae'n annhebygol y gall ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth fod yn dda os nad oes gan y bartneriaeth weithdrefnau hunanasesu effeithiol.

Dylai arolygwyr:

- arfarnu pa mor dda y mae'r bartneriaeth yn defnyddio deilliannau arolygon dysgwyr a staff i gynllunio ar gyfer gwella;
- ystyried y ffyrdd y mae'r bartneriaeth yn dadansoddi ac yn ymateb i unrhyw bryderon a godir, yn enwedig gan ddysgwyr;
- asesu'r graddau y mae'r bartneriaeth yn cynnwys pob un o'r staff mewn asesu deilliannau a pherfformiad, ac yn eu hysbysu yn eu cylch;
- barnu pa mor dda y mae'r bartneriaeth yn defnyddio deilliannau ymgynghoriadau gyda dysgwyr i lywio hunanasesu;
- arfarnu effeithiolrwydd yr hyn y mae'r bartneriaeth yn ei wneud i wella profiadau a deilliannau dysgu;
- barnu'r graddau y mae hunanasesu yn defnyddio tystiolaeth uniongyrchol o ansawdd addysgu a dysgu;
- arfarnu pa mor dda y mae'r bartneriaeth yn defnyddio data gyda'i gilydd a darparwyr eraill i gymharu deilliannau dysgwyr trwy weithgareddau meincnodi;
- barnu pa mor dda y mae'n cymharu ei pherfformiad gyda darparwyr eraill mewn gwledydd eraill y DU, yn enwedig ar gyfer darpariaeth arbenigol;
- barnu pa mor dda y bydd trefniadau'r bartneriaeth ar gyfer gwella ansawdd yn cael eu hintegreiddio'n agos gyda threfniadau eraill ar gyfer gwella ansawdd, fel rheoli perfformiad staff; a
- barnu pa mor dda y caiff hunanasesu ei ymgorffori mewn cynllunio strategol.

Ni ddylai arolygwyr bennu unrhyw fodel gwella ansawdd penodol.

3.2.2: cynllunio a sicrhau gwelliant

Dylai arolygwyr arfarnu pa mor effeithiol y mae'r bartneriaeth yn gweithio gyda'i gilydd i wella ansawdd ei holl waith, gan gynnwys y gwaith a gyflwynir mewn partneriaeth â darparwyr eraill.

Dylent arfarnu pa mor dda:

- y caiff y cylchoedd gwella ansawdd eu hintegreiddio gyda chylchoedd cynllunio eraill;

- y mae'r bartneriaeth yn blaenoriaethu'r cynlluniau ar gyfer gwella trwy ddyrannu adnoddau a chyfrifoldebau;
- y mae'r bartneriaeth yn gosod graddfeydd amser penodol a realistig ar gyfer ysgogi gwelliant; ac
- y mae'r camau a gymerwyd wedi cael effaith gadarnhaol a, lle bo'n berthnasol, wedi arwain at welliannau mesuradwy mewn safonau.

Dylai arolygwyr ystyried hefyd sut mae'r bartneriaeth wedi ymateb i argymhellion yr adroddiad arolygu diwethaf ac a yw'r camau a gymerwyd wedi arwain at welliannau mewn safonau ac ansawdd. Dylent adrodd ar gynnydd rhagorol neu anfoddhaol yn unig.

3.2.3: ymglymiad mewn rhwydweithiau arfer broffesiynol

Dylai arolygwyr farnu pa mor dda y mae partneriaethau yn ymgysylltu'n weithredol â sefydliadau cenedlaethol fel Colegau Cymru a Dysgu Cymunedol Cymru sy'n cynnwys rhannu a chymharu arferion a data ar ddeilliannau dysgwyr yn ogystal ag arferion rheoli. Gallent ystyried sut mae'r bartneriaeth yn rhoi ystyriaeth i'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer ymarferwyr ôl-16 yng Nghymru ac yn sicrhau ymgysylltiad gweithredol y staff i gynyddu eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau proffesiynol.

Dylai arolygwyr ganolbwyntio ar effaith rhwydweithiau a chymunedau dysgu proffesiynol ar godi safonau a gwella ansawdd y ddarpariaeth, a thalu sylw'n benodol i'r farn ar gyfer ansawdd yr addysgu (2.2).

Gan ystyried eu barnau o dan 2.2 mewn perthynas ag addysgu a hyfforddi, dylai arolygwyr farnu i ba raddau y mae'r staff:

- yn cael eu cefnogi gan y bartneriaeth i gymryd rhan mewn datblygiad proffesiynol parhaus;
- yn caffael gwybodaeth a medrau newydd i ddatblygu dulliau mwy effeithiol o ddysgu, addysgu a hyfforddi;
- yn rhannu arfer dda gydag athrawon ac oedolion eraill o fewn y bartneriaeth a thu hwnt;
- yn myfyrio ar eu harfer eu hunain; ac
- yn sicrhau bod eu dysgu proffesiynol yn effeithio ar gyflawniadau a lles dysgwyr.

Dylai partneriaethau fynd ati i geisio rhannu rhaglenni datblygu staff a rheolwyr sy'n helpu staff i ddatblygu medrau a gwybodaeth newydd a gwella eu harfer broffesiynol. Dylai arolygwyr gynnwys arfarniad o briodoldeb ac effaith rhaglen y bartneriaeth ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus ac o'r trefniadau ar gyfer rheoli perfformiad a pha mor dda y mae'r rhain yn cymell staff ac yn gwella eu perfformiad.

Gwella ansawdd yn dda

Mae gan y bartneriaeth systemau a gweithdrefnau effeithiol i nodi a monitro ei pherfformiad. Mae ganddi ddealltwriaeth dda o ba mor dda y mae'n perfformio ac mae'n defnyddio data perfformiad yn dda i nodi cryfderau a gwendidau mewn

deilliannau ar gyfer dysgwyr ac yn ansawdd yr addysgu ar gyrsiau unigol. Mae'n dadansoddi gwybodaeth am ddilyniant dysgwyr i lefelau astudio uwch neu i gyrsiau gwahanol ar yr un lefel. Mae'n cymharu deilliannau ar draws y bartneriaeth, gyda chymaryddion cenedlaethol lle maent yn bodoli, a gyda'r rhai a gyflawnir gan ddarparwyr tebyg o fewn partneriaethau eraill dysgu oedolion yn y gymuned. Caiff targedau ar gyfer perfformiad gwell eu gosod a'u defnyddio'n dda ar bob lefel. Mae prosesau hunanasesu yn arfarnol ac mae'r barnau'n cyd-fynd yn rhesymol â barnau'r tîm arolygu. Mae'r rhan fwyaf o'r staff yn cymryd rhan yn y broses hunanasesu ac yn nodi meysydd i'w gwella. Mae dysgwyr yn cymryd rhan mewn prosesau i wella ansawdd eu dysgu ac mae'r bartneriaeth yn gwneud yn siwr ei bod yn gweithredu yn unol â chanlyniad y gwaith hwn.

Gwella ansawdd yn anfoddhaol

Nid yw perfformiad cyffredinol y bartneriaeth wedi gwella nac wedi dirywio ers y tro diwethaf y cafodd ei arolygu. Nid yw'r bartneriaeth yn dadansoddi data ac yn gosod targedau ar ddeilliannau dysgwyr yn ddigon systematig. Nid yw'n gallu barnu pa mor llwyddiannus y mae dysgwyr yn ennill eu cymwysterau neu'n cyflawni eu nodau dysgu ar draws pob darparwr yn y bartneriaeth. Nid yw'r bartneriaeth yn gallu cynllunio'n dda i ddysgwyr wneud cynnydd. Prin yw'r arweinwyr a'r rheolwyr sy'n rhannu gwybodaeth am ddeilliannau dysgwyr yn agored o fewn y bartneriaeth i weld beth sy'n gweithio'n dda, ac i'r gwrthwyneb. Mae hinsawdd o gystadleuaeth rhwng darparwyr sy'n ei gwneud yn anodd i arweinwyr a rheolwyr fod yn onest ac yn agored am eu gwendidau. Nid oes gan y bartneriaeth brosesau clir na chadarn ar waith ar gyfer cynnwys dysgwyr mewn gwella ansawdd eu dysgu eu hunain.

3.3 Gweithio mewn partneriaeth

3.3.1 partneriaethau strategol
3.3.2 cynllunio, darparu adnoddau a sicrhau ansawdd ar y cyd

Materion wrth arolygu'r dangosydd ansawdd

3.3.1: partneriaethau strategol

Dylai arolygwyr arfarnu pa mor strategol y mae'r bartneriaeth yn gweithio gyda'i phartneriaid i wella safonau, lles a chyfleoedd dysgwyr.

Dylai'r prif ffocws yn y dangosydd ansawdd hwn fod ar effaith partneriaethau strategol ar safonau a lles dysgwyr ac nid dim ond ar nifer ac ystod y partneriaid neu natur ac ansawdd y trefniadau partneriaeth.

Gall partneriaid gynnwys:

- yr awdurdodau lleol yn yr ardal y mae'r bartneriaeth yn ei gwasanaethu;
- darparwyr eraill dysgu oedolion yn y gymuned;
- sefydliadau addysg uwch;
- cynghorau sirol gwirfoddol;

- grwpiau cymunedol a gwirfoddol;
- ysgolion uwchradd yn yr ardal; a
- cholegau eraill.

Mae'r cyswllt mwyaf arwyddocaol yn y bartneriaeth yn debygol o fod rhwng yr awdurdod lleol a'r colegau yn yr ardal. Gallai amrywiaeth o'r adrannau yn yr awdurdod lleol gymryd rhan, er enghraifft, gwasanaeth addysg (GAALI), adfywio economaidd a rhaglenni cymunedau yn gyntaf. Dylai arweinwyr a rheolwyr y cyrff neu'r adrannau hyn weithio gyda darparwyr eraill yn yr ardal, fel sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch a sefydliadau gwirfoddol lleol, i ddatblygu a gweithredu cynlluniau priodol ar gyfer dysgwyr yn y gymuned sy'n oedolion.

Dylai arolygwyr arfarnu effaith y partneriaethau hyn a'r graddau y mae darparwyr yn gweithio gyda'i gilydd ac yn rhannu cyfrifoldeb i arwain a/neu ymgymryd â rolau strategol i sefydlu partneriaeth gref gyda lefelau uchel o ymddiriedaeth rhwng y darparwyr gwahanol.

3.3.2: cynllunio, darparu adnoddau a sicrhau ansawdd ar y cyd

Dylai arolygwyr arfarnu pa mor dda y mae'r bartneriaeth yn cydweithio i gynllunio a chyflwyno rhaglenni a dewisiadau cydlynus sy'n rhoi ystyriaeth lawn i anghenion pob dysgwr. Dylai arolygwyr farnu effeithiolrwydd trefniadau cynllunio a sicrhau ansawdd y bartneriaeth. Dylent hefyd ystyried effaith y bartneriaeth o ran gwella deilliannau ar gyfer dysgwyr sy'n cymryd rhan mewn cyrsiau a gyflwynir trwy drefniadau partneriaeth.

Gweithio mewn partneriaeth yn dda

Mae'r bartneriaeth yn gryf ac yn effeithiol gydag ystod briodol o ddarparwyr. Gyda'i gilydd, mae'r darparwyr hyn yn datblygu arferion da o ran cydweithio. Maent yn gweithio'n dda i ddatblygu ymddiriedaeth rhwng ei gilydd. Mae darparwyr unigol bob amser yn rhoi sylw i les pob dysgwr wrth iddynt ystyried y trefniadau ar gyfer gweithio mewn partneriaeth. Mae'r bartneriaeth yn agored, yn gynhwysol ac yn rhagweithiol ar bob lefel o ran ei dull ar gyfer gweithio gydag eraill. Mae darparwyr yn gweithio gyda'i gilydd yn y bartneriaeth i roi anghenion dysgu'r dysgwr a'r ardal yn gyntaf yn hytrach nag anghenion sefydliadau unigol.

Gweithio mewn partneriaeth yn anfoddhaol

Nid yw pob darparwr yn cyfranogi ac mae ganddynt lai o rôl mewn unrhyw weithgarwch partneriaeth yn yr ardal. Mae gan y bartneriaeth gysylltiadau gyda llawer o randdeiliaid allanol, ond mae'r cysylltiadau hyn yn aml yn anghyson ac nid ydynt yn cael eu defnyddio'n systematig i ddatblygu neu wella gweithio mewn partneriaeth. Nid yw rheolwyr sy'n gweithio gyda'r bartneriaeth yn mynychu cyfarfodydd ei grwpiau rheoli a'i gweithgorau yn rheolaidd. Mae ymdeimlad cryf o ddiffyg ymddiriedaeth rhwng partneriaid, ac anaml y rhennir arferion gweithio. Mae'r darparwyr yn y bartneriaeth yn ceisio amddiffyn eu harferion gweithio cyfredol unigol a'u hymreolaeth ac mae hyn o anfantais i ddysgwyr.

3.4 Rheoli adnoddau

3.4.1 rheoli staff ac adnoddau
3.4.2 gwerth am arian

Materion wrth arolygu'r dangosydd ansawdd

Fel arfer, ni ddylai'r farn gyffredinol ar y dangosydd ansawdd hwn fod yn uwch na'r farn ar gyfer Cwestiwn Allweddol 1, ond gallai fod yn is.

Wrth arolygu rheoli adnoddau, dylai arolygwyr farnu pa mor dda y mae'r bartneriaeth yn cynllunio ac yn cynnal strategaethau effeithiol i sicrhau a monitro eu bod yn rheoli adnoddau'n dda ac yn cyflawni gwerth am arian.

3.4.1: rheoli staff ac adnoddau

Mae partneriaethau yn fawr ac yn gymhleth gyda llawer o ffrydiau incwm a gwariant. Dylai arolygwyr ystyried y graddau y mae cynlluniau strategol y partneriaethau yn gwneud defnydd da o'r ffynonellau cyllid amrywiol sydd ar gael i bartneriaid.

Dylent ystyried pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr:

- yn rheoli cyllid ac adnoddau mewn ffyrdd sy'n helpu'r bartneriaeth i gyflawni ei blaenoriaethau addysgol;
- yn gwneud yn siŵr bod y bartneriaeth wedi'i staffio'n briodol i gyflwyno'r cwricwlwm yn effeithiol;
- yn defnyddio staff addysgu a staff cymorth i wneud y defnydd gorau o'u hamser a'u medrau;
- yn bodloni anghenion datblygu'r staff, sut bynnag y cânt eu nodi;
- yn defnyddio gwybodaeth feincnodi i gyfeirio adnoddau at feysydd lle mae eu hangen fwyaf;
- yn darparu'r safonau gorau posibl o adeiladau; ac
- yn gwneud yn siŵr bod adnoddau dysgu priodol ar gael i ddysgwyr lle bynnag y gallent fod yn astudio.

3.4.2: gwerth am arian

Wrth arolygu gwerth am arian, dylai arolygwyr farnu effeithiolrwydd y bartneriaeth o ran cyflawni deilliannau o ansawdd uchel ar gyfer dysgwyr yng Nghwestiwn Allweddol 1. Fodd bynnag, dylent hefyd ystyried pa mor dda y mae'r bartneriaeth yn rheoli ei hadnoddau. Os yw'r adnoddau'n cael eu rheoli'n wael, hyd yn oed os yw'r deilliannau'n dda, dylai'r farn gyffredinol adlewyrchu'r meysydd i'w datblygu a nodwyd.

Dylai arolygwyr arfarnu:

- effeithiolrwydd y ddarpariaeth o ran sicrhau deilliannau priodol ar gyfer dysgwyr yn gyffredinol;
- y graddau y mae'r bartneriaeth yn sicrhau cydbwysedd rhwng effeithiolrwydd ei darpariaeth yn erbyn costau yn llwyddiannus, gan gynnwys costau staffio; a'r

- graddau y mae'n gwneud defnydd da o'r cyllid a gaiff.

Dylent ddatgan yn yr adroddiad fod y bartneriaeth yn cynnig gwerth am arian rhagorol, da, digonol neu anfoddhaol ar gyfer ei dysgwyr o ran y defnydd a wneir o'i hincwm.

Rheoli adnoddau yn dda

Mae'r bartneriaeth yn rheoli ei hadnoddau yn effeithiol. Mae rheolwyr ar draws y bartneriaeth yn defnyddio gwybodaeth o arolygon meincnodi yn dda i nodi cyfleoedd i ailgyfeirio adnoddau i wella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd fel ei gilydd. Mae'r bartneriaeth yn cynllunio gwella ansawdd ei hadeiladau a'i hadnoddau ar draws darparwyr ac mae'n rhannu adnoddau lle bo'n briodol. Mae'r bartneriaeth yn arfarnu effeithiolrwydd y camau y mae'n eu cymryd i wella perfformiad athrawon a staff eraill ac yn darparu hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaus ar y cyd, lle bo'n briodol. Mae'r bartneriaeth yn darparu gwerth da am arian ar gyfer ei dysgwyr.

Rheoli adnoddau yn anfoddhaol

Ychydig iawn o ddefnydd a wna'r bartneriaeth o wybodaeth feincnodi i gefnogi ei chynlluniau ar gyfer gwella adeiladau a'i defnydd o adnoddau. Nid yw'n cynnal unrhyw adolygiadau o adeiladau a lleoliadau y mae'n eu defnyddio er mwyn gwella eu hansawdd. Nid yw'r datblygiad staff y mae aelodau staff y bartneriaeth yn ymgymryd ag ef wedi'i gysylltu â'i strategaethau ar gyfer gwella ansawdd a datblygu'r cwricwlwm. Nid yw'r bartneriaeth yn arfarnu effeithiolrwydd ei rhaglen datblygu staff na pha mor dda y mae staff yn cael eu defnyddio. Nid yw'n rhannu adnoddau na chyfleoedd hyfforddi staff. Mae'r bartneriaeth yn darparu gwerth anfoddhaol am arian ar gyfer ei dysgwyr.

Atodiad 1: Y Fframwaith Arolygu Cyffredin

CWA	Dangosyddion Ansawdd	Agweddau
1 DEILLIANNAU	**1.1 Safonau**	1.1.1 canlyniadau a thueddiadau mewn perfformiad o'u cymharu â chyfartaleddau cenedlaethol, darparwyr tebyg a chyrhaeddiad blaenorol 1.1.2 safonau grwpiau o ddysgwyr 1.1.3 cyflawniad a chynnydd wrth ddysgu 1.1.4 medrau 1.1.5 yr iaith Gymraeg
	1.2 Lles	1.2.1 agweddau at gadw'n iach a diogel 1.2.2 cyfranogi mewn dysgu a'i fwynhau 1.2.3 ymglymiad cymunedol a gwneud penderfyniadau 1.2.4 medrau cymdeithasol a medrau bywyd
2 DARPARIAETH	**2.1 Profiadau dysgu**	2.1.1 bodloni anghenion dysgwyr a chyflogwyr/y gymuned 2.1.2 darpariaeth ar gyfer medrau 2.1.3 darpariaeth Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig 2.1.4 addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang
	2.2 Addysgu	2.2.1 ystod ac ansawdd y dulliau addysgu 2.2.2 asesu dysgu ac asesu ar gyfer dysgu
	2.3 Gofal, cymorth ac arweiniad	2.3.1 darpariaeth ar gyfer iechyd a lles 2.3.2 gwasanaethau, gwybodaeth ac arweiniad arbenigol 2.3.3 trefniadau diogelu 2.3.4 anghenion dysgu ychwanegol
	2.4 Yr amgylchedd dysgu	2.4.1 ethos, cydraddoldeb ac amrywiaeth 2.4.2 amgylchedd ffisegol
3 ARWEINYDDIAETH	**3.1 Arweinyddiaeth**	3.1.1 cyfeiriad strategol ac effaith yr arweinyddiaeth 3.1.2 llywodraethwyr neu fyrddau goruchwylio eraill 3.1.3 bodloni blaenoriaethau cenedlaethol a lleol
	3.2 Gwella ansawdd	3.2.1 hunanasesu, gan gynnwys gwrando ar ddysgwyr ac eraill 3.2.2 cynllunio a sicrhau gwelliant 3.2.3 ymglymiad mewn rhwydweithiau arfer broffesiynol
	3.3 Gweithio mewn partneriaeth	3.3.1 partneriaethau strategol 3.3.2 cynllunio, darparu adnoddau a sicrhau ansawdd ar y cyd
	3.4 Rheoli adnoddau	3.4.1 rheoli staff ac adnoddau 3.4.2 gwerth am arian

Atodiad 2: Ffynonellau tystiolaeth

Y prif ffynonellau tystiolaeth sy'n berthnasol i gwestiynau allweddol a dangosyddion ansawdd

	Cwestiwn Allweddol 1		Cwestiwn Allweddol 2				Cwestiwn Allweddol 3			
	1.1	1.2	2.1	2.2	2.3	2.4	3.1	3.2	3.3	3.4
Arsylwi:										
Arsylwi sesiynau addysgu, hyfforddi a dysgu, hyfforddiant yn y gweithle a sesiynau tiwtorial	✓	✓		✓	✓	✓	x	x	x	
Craffu ar waith cyfredol a blaenorol disgyblion, gan gynnwys unrhyw waith a wnaed oddi ar y safle a gwaith cartref; a marcio, sylwadau a gwaith dilynol	✓	✓		✓						
Arsylwi gweithdrefnau recriwtio ac arweiniad			✓		✓					
Yr adnoddau dysgu sydd ar gael, gan gynnwys llyfrgell/canolfannau adnoddau dysgu ar wahanol safleoedd; ystod briodol o lyfrau, adnoddau TGCh, offer ymarferol a deunyddiau clyweled i gefnogi dysgu, addysgu a hyfforddi, gan gynnwys offer arbenigol i gefnogi dysgwyr ag anawsterau a/neu anableddau.	✓	✓		✓	✓	✓				✓
Cyflwr, ymddangosiad, y defnydd o adeiladau ar bob safle a pha mor addas ydynt at eu diben ar bob safle lle mae'r addysgu, yr hyfforddi a'r dysgu'n digwydd						✓				✓
Adeiladau, offer a chymhorthion arbenigol ac adnoddau eraill						✓				✓
Dogfennau:										
Yr adroddiad hunanasesu a'r cynllun datblygu ansawdd	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Yr adroddiad FfAE diweddaraf	✓		✓	✓		✓	✓	✓	✓	✓

Brîff diweddaraf yr AdAS ar y coleg	✓		✓	✓		✓	✓	✓	✓	✓
Y data diweddaraf gan Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru yn ogystal â data mwy diweddar fel y mae wedi'i ddarparu gan y bartneriaeth	✓									
Data ar gyfraddau cadw, cyrhaeddiad, dilyniant, gwerth ychwanegol, presenoldeb a phrydlondeb dysgwyr ar draws y bartneriaeth; dylai hyn gynnwys gwaith heb ei achredu	✓	✓								
Cofnodion o brofion diagnostig, niferoedd sy'n manteisio ar gymorth dysgwyr a'i effaith	✓				✓	✓				
Trefniadau i gefnogi dysgwyr ag anawsterau dysgu, a/neu anableddau	✓	✓	✓		✓	✓				
Data ar ddysgwyr yn narpariaeth y bartneriaeth, gan gynnwys y ganran y maent yn ei chynrychioli yn y garfan oedran yn y meysydd sy'n cael eu gwasanaethu gan y bartneriaeth, yn ogystal â threfniadau gwella ansawdd ar gyfer y ddarpariaeth a'r deilliannau ar gyfer unrhyw ddysgwyr sy'n ymgymryd â darpariaeth y bartneriaeth	✓							✓		
Cynrychiolaeth y bartneriaeth ar fyrddau a phwyllgorau sy'n gyfrifol am gynllunio a chyflwyno darparwyr eraill, er enghraifft, byrddau Cymunedau yn Gyntaf, Byrddau Iechyd Lleol							✓	✓	✓	✓
Gwybodaeth am y targedau ar gyfer gwella a osodir gan y bartneriaeth	✓						✓	✓	✓	✓
Barn dysgwyr a chyflogwyr fel y cawsant eu mynegi mewn holiaduron (neu ddogfennau tebyg eraill)	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓

Cynlluniau strategol, gweithredol a busnes yn ogystal â pholisïau a gweithdrefnau yn ymwneud â gwella ansawdd, cymorth dysgwyr, iechyd a diogelwch, profi diagnostig, cyfle cyfartal ac amrywiaeth, cydraddoldeb hiliol, ac amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed sy'n gweithredu o fewn y bartneriaeth dysgu oedolion yn y gymuned.					✓		✓	✓	✓	✓
Ystadegau rheoli a data arall a ddefnyddir ar gyfer cynllunio a monitro darpariaeth	✓						✓	✓	✓	✓
Prosbectysau, gwefannau ac unrhyw ddeunyddiau marchnata eraill darparwr y bartneriaeth			✓		✓	✓		✓		
Gwybodaeth am y farchnad lafur, ymchwil i'r farchnad a'r dystiolaeth o'r defnydd a wneir ohoni			✓				✓			
Dogfennaeth ar gysylltiadau a pherthnasoedd gyda sefydliadau eraill ac isgontractwyr							✓	✓	✓	✓
Dogfennaeth y cwricwlwm, cynlluniau gwaith a chynlluniau gwersi ar gyfer dysgu oedolion yn y gymuned			✓	✓			✓			
Gwybodaeth am staffio, gan gynnwys strwythur(au) rheoli o fewn y bartneriaeth, disgrifiadau swydd o holl raddau staff a pholisïau a chynlluniau ar gyfer datblygiad staff o fewn y bartneriaeth yn ogystal â chofnodion o DPP ac unrhyw lawlyfrau a deunyddiau arweiniad						✓				✓
Trefniadau ar gyfer rheoli perfformiad a chofnodion o arsylwadau gwersi; copïau o adolygiadau mewnol a gynhaliwyd gan y bartneriaeth				✓					✓	
Asesiadau a chofnodion athrawon a hyfforddwyr o gynnydd a chyflawniad dysgwyr, gan gynnwys adroddiadau cynnydd i rieni a chyflogwyr	✓		✓	✓						

Cynlluniau dysgu unigol dysgwyr	✓		✓		✓					
Cofnodion o achredu dysgu a phrofiad blaenorol dysgwyr			✓	✓	✓	✓				
Adroddiadau'r gwiriwr allanol a mewnol			✓				✓		✓	
Y cynllun/iau Iaith Gymraeg sy'n weithredol yn y bartneriaeth	✓				✓		✓		✓	
Cofnodion o unrhyw weithgarwch meincnodi a gynhaliwyd gan y bartneriaeth yng Nghymru a'r tu allan, fel y bo'n briodol ar gyfer dysgu oedolion yn y gymuned							✓	✓		
Data gwerth ychwanegol a chofnodion o sut caiff ei ddefnyddio i wella ansawdd	✓			✓						✓
Cofnodion cyfarfodydd staff, timau cwrs, rheolwyr a llywodraethwyr gan gynnwys is-bwyllgorau'r bartneriaeth							✓		✓	
Gwybodaeth am drefniadau rheoli cyllideb o fewn y bartneriaeth, gan gynnwys trefniadau ar gyfer dyrannu cyllid i benaethiaid cyllideb, a pholisïau codi tâl										✓
Trafodaeth:										
Trafodaethau gyda dysgwyr, staff, cyflogwyr, llywodraethwyr, arbenigwyr sy'n ymweld, a rhanddeiliaid	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓

Atodiad 3: Rheoliadau ac arweiniad

Cyfuniad o reoliadau, mesurau a chylchlythyrau yw'r dogfennau a restrir isod, ac fe'u darperir er gwybodaeth ar gyfer arolygwyr. Nid yw'r rhestr hon yn drwyadl ac nid yw wedi'i bwriadu i fod yn rhestr wirio i arolygwyr adolygu partneriaeth. Fe'u darperir fel adnodd yn unig ar gyfer tîm arolygu pe bai'r angen yn codi. Mae angen i arolygwyr fod yn ymwybodol mai dogfennau statudol yw rheoliadau a mesurau. Mae pob un o'r dogfennau yn berthnasol i Gwestiwn Allweddol 1 o ran eu heffaith ar ddeilliannau ar gyfer dysgwyr.

	Cwestiwn Allweddol 1*	Cwestiwn Allweddol 2				Cwestiwn Allweddol 3			
		2.1	2.2	2.3	2.4	3.1	3.2	3.3	3.4
Cynllun Hygyrchedd:		✓		✓	✓	✓			
Deddf Cydraddoldeb 2010;		✓		✓	✓	✓			✓
Cwricwlwm:									
Llwybrau Dysgu 14-19 Arweiniad II;									
Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009;									
Cylchlythyr 17/2006;									
Trefniadau Cydweithredol Rhwng Sefydliadau AB ac Ysgolion 007/2009, 007/2009 Chwefror 2009;		✓		✓		✓			
Trawsnewid Darparwyr Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru: Cyflwyno Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru ISBN 978 0 7504 4787 4;									
Cyflwyno Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru (strategaeth NACH – heb ei chyhoeddi eto);		✓		✓		✓			
Polisi Dysgu Cymunedol (darpariaeth dysgu oedolion yn y gymuned yng Nghymru – heb ei chyhoeddi eto)		✓			✓		✓	✓	✓
Deddf Cydraddoldeb 2010;				✓	✓	✓			
Addysg ar gyfer Datblygiad Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-Eang: Strategaeth ar gyfer Gweithredu 055/2008 Ebrill 2008;		✓				✓			

	Cwestiwn Allweddol 1*	Cwestiwn Allweddol 2				Cwestiwn Allweddol 3			
		2.1	2.2	2.3	2.4	3.1	3.2	3.3	3.4
Polisi a Gweithdrefnau Diogelwch rhag Tân: Gorchymyn (Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith) (Diogelwch rhag Tân) 2005.				✓	✓	✓			
Rhyddid Gwybodaeth: rhaid i goleg gynnal a chyhoeddi Cynllun Cyhoeddi (Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 adran 19).						✓			
Llywodraethu Rheoliad Llywodraethu Corfforaethau Addysg Bellach (Cymru) 2006						✓			
Cydraddoldeb Hiliol a Chyfle Cyfartal: Deddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000.				✓	✓	✓			
Diogelu: Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan; a chylchlythyr 34/02 CCC 'Amddiffyn Plant: atal pobl anaddas rhag gweithio gyda phlant a phobl ifanc yn y gwasanaeth addysg'; Deddf Diogelu Grwpiau Agored i Niwed 2006: Gweithgareddau a Reolir Cymru; Mewn Dwylo Diogel: rhoi gweithdrefnau amddiffyn oedolion ar waith yng Nghymru, 2000				✓		✓			
Ansawdd ac Effeithiolrwydd: Fframwaith Effeithiolrwydd Ansawdd ar gyfer dysgwyr ôl-16 yng Nghymru, Mawrth 2009 ISBN 978 0 7504 4928 1; Y Wlad sy'n Dysgu, Awst 2001 ISBN 0 7504 2735 3; Y Wlad sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith; Adolygiad Beecham 'Creu'r Cysylltiadau' a 'Chyflawni Ar Draws Ffiniau' Llywodraeth Cynulliad Cymru 2006						✓	✓	✓	

Atodiad 4: Holiadur i ddysgwyr

Mae gwrando ar ddysgwyr yn ffynhonnell dystiolaeth allweddol o gyflawniad, agweddau a lles dysgwyr. Bydd arolygwyr yn ystyried canlyniadau arolygon o farn dysgwyr wrth benderfynu ar drywyddau ymholi yn y cyfnod cyn yr arolygiad. Bydd barn dysgwyr hefyd yn dylanwadu ar arolygwyr wrth iddynt lunio barnau arfarnol ynglŷn â pha mor dda y mae'r darparwr/bartneriaeth yn bodloni anghenion dysgwyr.

Bydd arolygwyr yn cynnwys sylwebaeth fer ar ganfyddiadau dysgwyr o'r darparwr/bartneriaeth. Gallai'r sylwebaeth gael ei seilio ar ddadansoddiad o holiaduron canfyddiadau dysgwyr a gynhaliwyd gan Estyn.

Dylai'r sylwebaeth ganolbwyntio'n benodol ar farn dysgwyr am ansawdd y cyngor, y cymorth a'r arweiniad a gânt, pa mor dda y mae'r addysgu yn bodloni eu hanghenion ac yn ennyn eu diddordeb, faint y mae eu llais yn cael ei glywed yn eu barn nhw a sut mae'n dylanwadu ar wneud penderfyniadau am eu cwrs, y darparwr a'r bartneriaeth yn gyffredinol.

Questionnaire for Learners
(post-16 sectors)

Holiadur i Ddysgwr
(yn y sectorau ôl-16)

Estyn
Rhagoriaeth i bawb - Excellence for all

Complete online and log in using the details provided by your college/education or training provider / Gallwch lenwi'r holiadur hwn ar-lein yn vir.estyn.gov.uk a mewngofnodi gan ddefnyddio'r manylion a ddarperir gan eich coleg/darparwr addysg neu hyfforddiant

http://vir.estyn.gov.uk

Name of college/education or training provider:
Enw'r coleg/darparwr addysg neu hyfforddiant:

Please circle as appropriate / Rhowch gylch o amgylch yn un briodol

Male /Gwryw / Female/Benyw /

Full-time study/ Astudio amser-llawn / Part-time study/Astudio rhan-amser /

Age Group/ Grŵp Oedran / 14-16 / 16-19 / 19-25 / 25-60 / 60+

Over the next few weeks, Estyn inspectors will be visiting your college/education or training provider. But before they arrive they would like to know what you think about the education or training you receive. Please take a few minutes to read each statement below and **tick** (✔) the answer that best reflects what you think about your college/education or training provider. When you have completed this questionnaire put it in an envelope and give it back to your tutor, trainer or assessor. If you need help completing this questionnaire please let your tutor/trainer know.

Your feedback is confidential and will be read only by Estyn inspectors who will use it when they make judgements about your college/education or training provider. Estyn may also use your feedback to make general statistical analysis of learner views about education and training. This analysis will not identify individuals in any way.

Dros yr wythnosau nesaf, bydd arolygwyr Estyn yn ymweld â'ch coleg/darparwr addysg neu hyfforddiant. Ond cyn iddynt gyrraedd, fe hoffent gael gwybod beth yw eich barn am yr addysg neu'r hyfforddiant yr ydych yn ei dderbyn. A fyddech cystal â threulio ychydig funudau yn darllen pob datganiad isod a **thicio'r** (✔) ateb sy'n adlewyrchu orau eich barn am eich coleg/darparwr addysg neu hyfforddiant. Pan fyddwch wedi llenwi'r holiadur hwn, rhowch ef mewn amlen a'i roi yn ôl i'ch tiwtor, eich hyfforddwr neu'ch asesydd. Os oes angen cymorth arnoch i lenwi'r holiadur hwn, rhowch wybod i'ch tiwtor/hyfforddwr.

Mae eich adborth yn gyfrinachol a bydd yn cael ei ddarllen gan arolygwyr Estyn yn unig, a fydd yn ei ddefnyddio pan fyddant yn llunio barnau am eich coleg/darparwr addysg neu hyfforddiant. Gall Estyn hefyd ddefnyddio'ch adborth i wneud dadansoddiad ystadegol cyffredinol o farn dysgwyr am addysg a hyfforddiant. Ni fydd y dadansoddiad hwn yn datgelu enwau unigolion mewn unrhyw ffordd.

	Questions	Strongly agree / Cytuno'n gryf	Agree / Cytuno	Disagree / Anghytuno	Strongly disagree / Anghytuno'n gryf	Cwestiynau
1	I was given good information by the provider when I was choosing my learning programme.					Rhoddwyd gwybodaeth dda i mi gan y darparwr pan oeddwn yn dewis fy rhaglen ddysgu.
2	I was given good advice about what I can do when I have finished my learning programme.					Rhoddwyd cyngor da i mi am beth y gallaf ei wneud pan fyddaf wedi gorffen fy rhaglen ddysgu.
3	Staff helped me in the first few weeks of my learning programme.					Fe wnaeth staff fy helpu yn ystod wythnosau cyntaf fy rhaglen ddysgu.
4	I get good personal support from my tutors, trainers or assessors.					Rwy'n cael cymorth personol da gan fy nhiwtoriaid, hyfforddwyr neu aseswyr.

Continued overleaf/Parhau drosodd...

	Questions	Strongly agree / Cytuno'n gryf	Agree / Cytuno	Disagree / Anghytuno	Strongly disagree / Anghytuno'n gryf	Cwestiynau
5	There are other effective types of support available for me.					Mae mathau effeithiol eraill o gymorth ar gael i mi.
6	Staff give me learning opportunities and support in Welsh and/or English according to my choice.					Mae staff yn rhoi cyfleoedd a chymorth dysgu i mi yn y Gymraeg a/neu yn Saesneg, yn ôl fy newis.
7	Staff show all learners respect and listen to their views and concerns.					Mae staff yn dangos parch tuag at bob dysgwr ac yn gwrando ar eu barn a'u pryderon.
8	Staff act on the views of learners.					Mae staff yn gweithredu yn unol â barn dysgwyr.
9	Staff help me to understand and to respect people from different backgrounds.					Mae staff yn helpu i mi ddeall a pharchu pobl o gefndiroedd gwahanol.
10	Learners show respect and support one another well.					Mae dysgwyr yn dangos parch ac yn cynorthwyo ei gilydd yn dda.
11	Staff help me to learn and to make progress.					Mae staff yn helpu i mi ddysgu a gwneud cynnydd
12	When required, I have access to good quality work placements.					Pan fo angen, rwy'n gallu manteisio ar leoliadau gwaith o ansawdd da.
13	My employer supports me well in my work placement.					Mae fy nghyflogwr yn fy nghynorthwyo'n dda yn fy lleoliad gwaith.
14	I feel safe and free from harassment in my place of learning/work placement.					Rwy'n teimlo'n ddiogel ac yn rhydd rhag aflonyddu yn fy lle dysgu/lleoliad gwaith.
15	I enjoy learning.					Rwy'n mwynhau dysgu.
16	Staff use good quality learning materials.					Mae staff yn defnyddio deunyddiau dysgu o ansawdd da.
17	I have access to enough books and equipment, including computers, to do my work.					Rwy'n gallu cael gafael ar ddigon o lyfrau ac offer, gan gynnwys cyfrifiaduron, i wneud fy ngwaith.
18	Staff give me useful feedback on how to improve my work.					Mae staff yn rhoi adborth defnyddiol i mi ar sut i wella fy ngwaith.
19	My learning will help me to achieve my goals.					Bydd fy nysgu yn fy helpu i gyflawni fy amcanion.
20	Taking part in this learning has helped me to improve my life skills.					Mae cymryd rhan yn y dysgu hwn wedi helpu i mi wella fy medrau bywyd.
21	Taking part in this learning has helped me to become involved in my community.					Mae cymryd rhan yn y dysgu hwn wedi helpu i mi gymryd rhan yn fy nghymuned.
22	My learning has helped improve my attitude to keeping healthy and safe.					Mae fy nysgu wedi helpu i wella fy agwedd at gadw'n iach a diogel.
23	I would recommend this learning provider to other people.					Byddwn yn argymell y darparwr dysgu hwn i bobl eraill.

If you would like to find out more about inspection, a leaflet – 'Understanding inspections in the post-16 sector: a guide for learners' – is available to download at www.estyn.gov.uk.

Thank you for taking the time to give us your views.

Os hoffech gael gwybod mwy am arolygu, mae taflen – 'Deall arolygiadau yn y sector ôl-16: canllaw i ddysgwyr' – ar gael i lwytho i lawr ar www.estyn.gov.uk.

Diolch i chi am dreulio amser yn rhoi gwybod i ni beth yw'ch barn chi.

Atodiad 5: Dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY)

Mae barn dysgwyr a rhanddeiliaid eraill yn ffynonellau tystiolaeth ar gyfer pob cwestiwn allweddol. Rhaid i arolygwyr sicrhau bod yr arfarniad o'r deg dangosydd ansawdd yn cynnwys cyflawniadau, agweddau a lles pob dysgwr, gan roi ystyriaeth benodol i ddeilliannau ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY).

Mae'r term ADY yn berthnasol i ddysgwyr o bob oedran, y mae eu hanghenion dysgu yn ychwanegol i fwyafrif eu cyfoedion. Mae'r term 'anghenion addysgol arbennig' yn is-gategori o anghenion dysgu ychwanegol, sy'n cael ei ddefnyddio i nodi'r dysgwyr hynny sydd ag anawsterau dysgu difrifol, cymhleth a/neu benodol fel y'u cyflwynir yn Neddf Addysg 1996 a Chod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru.

Mae disgyblion ag ADY yn cynnwys y rhai sydd ag:

- anghenion addysgol arbennig;
- anableddau;
- anghenion meddygol;
- anawsterau emosiynol, cymdeithasol ac ymddygiadol a/neu anghenion iechyd meddwl.

Mae dysgwyr yn fwy tebygol o fod ag ADY pan fyddant hefyd yn perthyn i grwpiau sy'n agored i niwed, gan gynnwys:

- grwpiau ethnig lleiafrifol;
- ffoaduriaid/ceiswyr lloches;
- gweithwyr mudol;
- plant y gofelir amdanynt (PGA);
- rhieni ifanc a merched ifanc beichiog;
- troseddwyr ifanc,
- oedolion, plant a theuluoedd mewn amgylchiadau anodd;
- disgyblion sydd mewn perygl o ddioddef bwlio homoffobig;
- gofalwyr ifanc;
- dysgwyr sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol;
- dysgwyr ag anghenion medrau sylfaenol; a
- sipsiwn a theithwyr.

Atodiad 6: Arweiniad ar ddefnyddio data wrth arolygu partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned

Materion wrth arolygu'r dangosydd ansawdd

Dylai arolygwyr ddarllen yr arweiniad hwn ar y cyd â'r arweiniad ar arolygu safonau (1.1.1).

Mae arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt wrth edrych ar ddata ar berfformiad, lle mae data o'r fath ar gael. Mae'r raddfa yn dangos pa mor dda y

mae'r darparwr yn perfformio mewn perthynas â meincnodau cenedlaethol:

Rhagorol	=	15% neu fwy uwchlaw'r cymharydd cenedlaethol
Da	=	5% i 15% uwchlaw'r cymharydd cenedlaethol
Digonol	=	5% uwchlaw i 5% islaw'r cymharydd cenedlaethol
Anfoddhaol	=	Mwy na 5% islaw'r cymharydd cenedlaethol

Mae Estyn yn llunio tablau data ar gyfer timau arolygu wedi'u seilio ar ddata diweddaraf Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru sydd ar gael ac ar y cymaryddion cenedlaethol mwyaf diweddar ar gyfer dysgu oedolion yn y gymuned. Mae'r tablau hyn yn canolbwyntio ar ddeilliannau ar lefel y darparwr cyfan ac ar lefel pob maes dysgu. Mae'r tablau hefyd yn cymharu perfformiad y darparwr â chymaryddion cenedlaethol a rhoddant arwydd o ble mae perfformiad y darparwr ar y raddfa bedwar pwynt a amlinellir uchod.

Pan fo'r tablau hyn ar gael ar gyfer darpariaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned, maent hefyd yn dangos, ar gyfer archwiliad mewnol gan arolygwyr, pa mor dda yw perfformiad y darparwr yn erbyn darparwyr eraill yng Nghymru. Dylai arolygwyr ystyried trefn y safleoedd er mwyn graddnodi eu barnau ymhellach ac i'w harwain wrth nodi trywyddau ymholi posibl ar gyfer yr arolygiad.

Gall arolygwyr ystyried data ar berfformiad dysgwyr nad yw wedi'i gofnodi ar gronfa ddata Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru. Gallant edrych ar y graddau a ddyfarnwyd i ddysgwyr a sut mae'r rhain yn cymharu gyda chymaryddion cenedlaethol. Gallent ystyried cyflawniad neu gredyd dysgwyr, lle mae hyn yn nodwedd o'u cynlluniau dysgu unigol a'u cwrs astudio. Gall arolygwyr hefyd ddefnyddio data wedi'i ddarparu gan gyrff dyfarnu i lywio eu barnau, yn enwedig mewn perthynas â chymwysterau galwedigaethol a dyfarnu credydau.

Gall arolygwyr ystyried unrhyw ddadansoddiadau o berfformiad gwerth ychwanegol gan ddysgwyr, a all gynnwys unrhyw ddysgu heb ei achredu a gyflwynir gan ddarparwyr. Mae'r dadansoddiad hwn yn edrych ar ba mor dda y mae dysgwyr wedi perfformio o'i gymharu â'u mannau cychwyn. Gall hyn ddarparu gwybodaeth bwysig am berfformiad y dysgwr, yn enwedig pan nad yw dysgwyr yn cyflawni'r graddau uwch ond eu bod, serch hynny, wedi perfformio'n dda iawn o fan cychwyn isel. Gall hefyd ddangos sut mae dysgwyr wedi defnyddio ac ymarfer eu medrau y tu allan i'r ystafell ddosbarth.

Gall arolygwyr hefyd ganolbwyntio'n fanylach ar sampl o feysydd dysgu, er mwyn dilyn trywydd ymholi penodol. Gallant edrych yn ofalus ar y data ar berfformiad dysgwyr yn y meysydd dysgu hyn. Mae'r dadansoddiad hwn hefyd yn rhoi syniad pwysig i arolygwyr o ba mor dda y mae'r darparwr yn rheoli ei ddata ar berfformiad dysgwyr.

Gall arolygwyr edrych ar y deilliannau mewn cymwysterau a dyfarnu credydau yn y sampl o feysydd dysgu neu alwedigaethol. Gallent gyfrifo'r cyfraddau llwyddo ar gyfer y grŵp o gymwysterau neu ddyfarnu credydau ym mhob un o'r meysydd a samplwyd a chymharu'r rhain gyda'r cymaryddion cenedlaethol ar gyfer yr un grŵp o gymwysterau. Mae hyn yn rhoi syniad defnyddiol iawn o berfformiad y dysgwyr ym mhob un o'r meysydd dysgu. Mae hefyd yn bwysig oherwydd gall y dadansoddiad hwn roi'r ystod o gyrsiau hir a byr y mae darparwyr yn eu cyflwyno yn eu cyd-destun.

Mewn Dysgu Oedolion yn y Gymuned, efallai na fydd y wybodaeth ddiweddaraf am berfformiad dysgwyr wedi cael ei gwirio o hyd neu efallai nad yw ar gael yn gyson ar gyfer pob maes dysgu. Yn yr achosion hyn, dylai arolygwyr ofyn i ddarparwyr ddarparu data heb ei wirio mewn perthynas â chyfraddau cwblhau, cyrhaeddiad, cyflawniad a llwyddo sy'n adlewyrchu eu darpariaeth gyfredol. Dylent ddewis sampl fechan o'r data a gofyn am gael gweld y data a ddychwelwyd gan gyrff arholi a chyrff dyfarnu i wirio trylwyredd y data a samplwyd. Dylent hefyd wirio i weld a yw'r darparwyr yn monitro dysgu heb ei achredu a'i ddeilliannau ar gyfer perfformiad dysgwyr.

Mae data heb ei wirio yn ddefnyddiol iawn wrth edrych ar dueddiadau mewn perfformiad ac i weld a yw'r camau a gymerwyd gan y darparwr yn ddiweddar yn llwyddo mewn perthynas â deilliannau gwell y dysgwyr.

Fel arfer, dylai arolygwyr roi'r pwys mwyaf i ddata wedi'i wirio. Gallant, fodd bynnag, ystyried data diweddar heb ei wirio pan fyddant yn gallu gwirio cofnodion o ffynonellau gwreiddiol, fel data a ddychwelwyd gan gyrff dyfarnu.

Gall arolygwyr hefyd ystyried pa mor dda y mae grwpiau o ddysgwyr yn perfformio, er enghraifft, dysgwyr ar gyrsiau hir a byr, dysgwyr sy'n ddynion ac yn ferched, dysgwyr amser llawn a rhan-amser, dysgwyr o grwpiau ethnig lleiafrifol, dysgwyr o ardaloedd difreintiedig, dysgwyr ar lefelau penodol, dysgwyr sy'n dilyn cyrsiau sy'n seiliedig ar gredydau, neu ddysgwyr sy'n astudio cyrsiau tebyg ond mewn lleoliadau gwahanol ar draws ardal ddaearyddol.

Pan fydd rhannau o ddarparwr yn perfformio'n dda iawn a rhannau eraill o ddarparwr yn tanberfformio, dylai arolygwyr archwilio beth mae'r darparwr yn ei wneud i wella perfformiad y meysydd gwannach fel ei fod yn cyrraedd yr un safon â'r meysydd gorau.

Atodiad 7: Arweiniad ar weithgarwch dilynol

Cefndir

Yn ystod pob arolygiad craidd, bydd y tîm arolygu yn ystyried a oes angen unrhyw weithgarwch dilynol ar y darparwr. Bydd yr un dull yn berthnasol i arolygiadau partneriaeth, gyda'r partner arweiniol yn gweithredu fel y darparwr.

Mae pedwar math o weithgarwch dilynol:

1. **Astudiaeth achos arfer ragorol**
2. **Ymweliad monitro gan yr arolygydd cyswllt ôl-16**
3. **Ymweliad monitro gan Estyn**
4. **Ailarolygiad, gyda chyfeiriad at yr AdAS**

Mae'r gweithgarwch dilynol cyntaf yn cynnwys gweithredu gan y darparwr i lunio astudiaeth achos 'arfer dda' i'w lledaenu gan Estyn. Mae'r ail yn cynnwys ymweliad gan yr arolygydd cyswllt ôl-16. Ymweliad gan dîm bach o arolygwyr Estyn yw'r trydydd. Mae'r olaf yn cynnwys ailarolygiad ac, yn amodol ar y canlyniad, cyfeiriad at yr AdAS sy'n gyfrifol am reoli contractau. Ar wahân i'r astudiaeth achos arfer dda,

mae'r gweithgarwch dilynol yn cynnwys lefelau cynyddol o ymyrraeth yn ôl yr angen. Bydd y math o weithgarwch dilynol sydd ei angen ar ddarparwr yn cael ei benderfynu ar sail achos wrth achos.

Bydd yr AdAS yn cael gwybod deilliannau'r arolygiad y mae angen ymweliadau pellach gan arolygwyr Estyn neu ailarolygiad ar eu cyfer. Ar ôl arolygiadau monitro gan Estyn, bydd swyddogion yr AdAS yn cael eu hysbysu am gynnydd dilynol a wnaed gan y darparwr a gall fynd ati ei hun i fonitro cynnydd darparwyr lle bo'n briodol. Os yw'r rhagolygon gwella'n anfoddhaol, gall yr AdAS fynd ati ei hun i fonitro perfformiad a bydd yn gofyn am weithgarwch dilynol wedi'i dargedu gan arolygydd cyswllt ôl-16. Os yw'r darparwr yn methu cyflwyno cynllun gweithredu boddhaol ar ôl derbyn barn gyffredinol ddigonol neu anfoddhaol, gall yr AdAS gymryd camau adferol, gan gynnwys tynnu arian yn ôl.

1 Astudiaeth achos arfer ragorol

Os bydd partneriaeth yn cael barn ragorol ar gyfer unrhyw ddangosyddion ansawdd, yna bydd y tîm arolygu wedi nodi un neu fwy o enghreifftiau o bosibl o arfer sy'n arwain y sector sy'n werth ei hefelychu ac sy'n haeddu cael ei lledaenu yn ehangach. Dylid trafod y posibilrwydd hwn yn ystod cyfarfodydd tîm, pan fydd arfer sy'n arwain y sector wedi bod yn ystyriaeth allweddol wrth lunio unrhyw farn ragorol.

Mewn achosion felly, bydd yr ACof yn gwahodd y darparwr i baratoi un neu ddwy astudiaeth achos ysgrifenedig ar feysydd cytûn o arfer ragorol. Ni fydd pob achos yn fwy na 600 o eiriau, a gall unrhyw ddeunydd enghreifftiol os yw'n briodol[1] gyd-fynd â hi, sy'n disgrifio'r arfer sy'n arwain y sector. Dylid esbonio'n glir i'r bartneriaeth fod yr arolygiaeth yn cadw'r hawl i olygu'r cynnwys ac arddull y cyflwyno. Dylai'r astudiaeth achos ddisgrifio cyd-destun a chefndir yr arfer orau, union natur y strategaeth neu'r gweithgarwch, a beth fu'r effaith ar ddeilliannau ar gyfer y dysgwyr. Rhaid i'r astudiaeth achos fod yn un y gall partneriaethau eraill yn yr un sector neu o bosibl mewn sectorau tebyg eraill graffu arni a'i hystyried yn arfer sy'n arwain y sector.

Dylid anfon yr astudiaeth achos i Estyn cyn pen pedair wythnos o ddiwedd y rhan o'r arolygiad ar y safle. Rhaid cyflwyno llythyr neu e-bost gyda'r astudiaeth achos yn dangos ei bod wedi'i chymeradwyo i'w defnyddio gan yr arolygiaeth, a'i llofnodi gan uwch arweinydd y darparwr.

Gall y bartneriaeth yn ddiweddarach gael ei gwahodd hefyd i ddangos ei harfer sy'n arwain y sector yn un o gynadleddau Estyn ar arfer orau. Gellid lledaenu'r enghraifft trwy gyfryngau amrywiol, gan gynnwys gwefan yr arolygiaeth, cylchlythyrau, cyhoeddiadau arfer orau ar gyfer y sector, yn Adroddiadau Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi (PAEM) ac mewn digwyddiadau arfer orau. Fel arfer bywyd cyhoeddi o dair blynedd fydd gan astudiaethau achos. Os ydynt wedi cael eu cyhoeddi ar wefan Estyn, byddant fel arfer yn cael eu tynnu oddi ar y wefan ar ôl y cyfnod hwn, er mwyn sicrhau eu bod yn aros yn amserol ac ar flaen y gad o ran arfer ragorol.

[1] Mae angen y cliriad angenrheidiol ar gyfer delweddau ffotograffig o blant a phobl ifanc.

2 Ymweliad monitro gan yr Arolygydd Cyswllt Ôl-16

Y gweithgarwch dilynol lleiaf manwl sydd ei angen pan nodir bod y bartneriaeth yn ddarparwr da yn gyffredinol, ond gall fod ganddi nifer lai o feysydd penodol i'w gwella sy'n gofyn am fonitro er mwyn sicrhau gwelliant.

Mewn achosion felly, gall y ddwy farn gyffredinol ar gyfer y darparwr fod yn dda, ond gellir barnu bod nifer fach o gwestiynau allweddol neu ddangosyddion ansawdd yn ddigonol, gan nodi rhai meysydd i'w gwella. Byddai hyn yn cynnwys enghreifftiau lle mae methiant â bodloni gofynion statudol yn effeithio ar ansawdd neu safonau.

Os bernir bod angen monitro gan arolygydd cyswllt ôl-16 Estyn ar y bartneriaeth, dylai'r arolygydd cofnodol ddweud wrth uwch arweinydd y bartneriaeth ar ddiwedd yr arolygiad craidd bod y tîm wedi llunio'r farn hon, a rhoi gwybod i'r Cyfarwyddwr Cynorthwyol a'r Cyfarwyddwr Strategol perthnasol yn Estyn.

3 Ymweliad monitro gan dîm Estyn

Fel arfer, bydd y lefel hon o weithgarwch yn ofynnol pan fydd o leiaf un o'r barnau cyffredinol ar gyfer darparwr mewn adroddiad arolygu yn ddigonol, ond nid yw'r darparwr yn peri pryder i'r graddau bod angen ailarolygiad arno ar hyn o bryd.

I gael y lefel hon o weithgarwch dilynol, byddai cwestiynau allweddol neu ddangosyddion ansawdd yn cael eu barnu yn ddigonol o leiaf. Byddai'n bosibl bod o leiaf rai cwestiynau allweddol a dangosyddion ansawdd wedi'u barnu yn dda. Fodd bynnag, byddai gan y darparwr rai meysydd pwysig i'w gwella y mae'n ofynnol eu monitro.

Os bernir bod angen ymweliad monitro gan Estyn ar y bartneriaeth, dylai'r arolygydd cofnodol ddweud wrth uwch arweinydd y bartneriaeth ar ddiwedd yr arolygiad craidd bod y tîm wedi llunio'r farn hon, a rhoi gwybod i'r Cyfarwyddwr Cynorthwyol a'r Cyfarwyddwr Strategol perthnasol yn Estyn.

Yn amodol ar safoni, bydd yr arolygiaeth yn ysgrifennu llythyr i'r darparwr, ac yn anfon copi ohono i'r AdAS, yn nodi'r meysydd y mae angen eu gwella ac yn esbonio y bydd tîm bychan o arolygwyr Estyn yn ymweld â'r darparwr i farnu cynnydd ryw flwyddyn yn ddiweddarach. Os bydd y tîm yn barnu nad oes cynnydd digonol wedi'i wneud, yna gellir barnu bod angen gwelliant sylweddol ar y darparwr, a'i roi yn y categori gwelliant sylweddol, a gallai hyn arwain at ailarolygiad.

4 Ailarolygiad gan Estyn

Fel arfer, bydd angen y lefel hon o weithgarwch pan fydd o leiaf un o'r barnau cyffredinol ar gyfer darparwr mewn adroddiad arolygiad craidd yn anfoddhaol.

I gael y lefel hon o weithgarwch dilynol, byddai un neu fwy o gwestiynau allweddol neu ddangosyddion ansawdd yn cael eu barnu yn anfoddhaol. Byddai'n bosibl bod o leiaf rai cwestiynau allweddol a dangosyddion ansawdd wedi'u barnu yn ddigonol. Fodd bynnag, byddai gan y darparwr feysydd pwysig i'w gwella y mae angen eu hailarolygu.

Os bernir bod angen ailarolygiad ar y bartneriaeth, dylai'r arolygydd cofnodol ddweud wrth uwch arweinydd y bartneriaeth ar ddiwedd yr arolygiad craidd bod y tîm wedi llunio'r farn hon a rhoi gwybod i'r Cyfarwyddwr Cynorthwyol a'r Cyfarwyddwr Strategol perthnasol yn Estyn.

Bydd yr arolygiaeth yn ysgrifennu llythyr i'r darparwr, ac yn anfon copi ohono i'r AdAS, yn nodi'r meysydd y mae angen eu gwella ac yn esbonio amseriad yr ailarolygiad.

Ar ôl yr ailarolygiad, bydd Estyn yn cyhoeddi adroddiad yn arfarnu'r cynnydd a wnaed gan y darparwr yn y meysydd hynny o'r arolygiad gwreiddiol y barnwyd eu bod yn anfoddhaol.

Gweithgarwch dilynol

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r mathau o weithgarwch dilynol a all ddeillio o arolygiad craidd. Dogfen fewnol Estyn yw'r tabl ac mae'n rhoi syniad bras o ganlyniadau tebygol er mwyn arwain cysondeb ar draws sectorau. Bydd y math o weithgarwch dilynol sydd ei angen gan ddarparwr penodol yn cael ei benderfynu ar sail achos wrth achos, gan ddefnyddio arweiniad manwl a amlinellir yn y llawlyfrau arolygu ar gyfer pob sector. Efallai y bydd angen diwygio'r ffiniau amrywiol gyda phrofiad.

Perfformiad cyfredol	Rhagolygon	Arall	Canlyniad posibl – ôl-16
Rhagorol ar gyfer o leiaf un farn gyffredinol		Lle mae Estyn yn nodi bod angen lledaenu arfer sy'n arwain y sector	Darparwr yn ysgrifennu astudiaeth achos
Da	Da	Unrhyw CwA neu ddangosydd ansawdd yn ddigonol. Methiant i fodloni gofynion statudol sy'n effeithio ar ansawdd a safonau	Ymweliad monitro gan yr arolygydd cyswllt ôl-16
Digonol	Da neu well		Ymweliad monitro gan dîm Estyn*
Da neu well	Digonol		Ymweliad monitro gan dîm Estyn*
Digonol	Digonol	Un dangosydd ansawdd neu fwy yn dda neu'n well	Ymweliad monitro gan dîm Estyn*
Digonol	Digonol	Unrhyw CwA yn anfoddhaol neu un dangosydd ansawdd neu fwy yn anfoddhaol neu bob un yn ddigonol	Ymweliad monitro gan dîm Estyn*
Anfoddhaol	Digonol		Ailarolygiad*
Digonol	Anfoddhaol		Ailarolygiad*
Anfoddhaol	Anfoddhaol		Ailarolygiad*

* Mae'r AdAS wedi cael gwybod am y camau a gymerwyd ac am gynnydd

Atodiad 8: Arolygu sefydliadau addysg bellach (SABau) heblaw am golegau AB

O fewn y cylch arolygu chwe blynedd, bydd Estyn yn trefnu arolygu SABau gwirfoddol sy'n cael eu hariannu gan yr AdAS i gyflwyno dysgu oedolion yn y gymuned. Byddwn yn eu harolygu gan ddefnyddio'r Fframwaith Arolygu Cyffredin ar gyfer partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned.

Ar hyn o bryd, mae tri SAB yn cyflwyno'r ddarpariaeth dysgu oedolion yn y gymuned arbenigol hon yng Nghymru.